

1970k Gwefan Cymru-Catalonia. Safai yr hen Wenallt mewn pantle, rhwng y fan y saif y Wenallt presenol a'r llwyn o goed a elwir Nyrs F'achddeiliog, yn ymyl hen orsaf ffordd haiarn y Bala.

http://www.theuniversityofjoandeserrallonga.com/kimro/amryw/1_testunau/sion_prys_071_adgofion_andronicus_01_1970k.htm



[0001z Y Tudalen Blaen](#)

.....[1863c Y Porth Cymraeg](#)

.....[.0009k Y Gwegynllun](#)

.....[.0960k Y Gyfeirddalen i Gywaith Siôn Prys \(testunau Cymraeg yn y wefan hon\)](#)

.....y tudalen hwn / aquesta pàgina

 <p>0860k y llyfr ymwelwyr</p>	<p>Gwefan Cymru-Catalonia La Web de Catalunya i Gal·les</p> <p>Dyma ran o Adran 11 yn y wefan hon, sef Cywaith Siôn Prys - Testunau Cymraeg ar y Web</p> <p>Adgofion Andronicus (= John William Jones, Y Bala, 1842-1895) Cyhoeddwyd: Caernarfon 1894</p>	 <p>Adolygiadau diweddaraf: 2004-04-29</p>
---	--	--

AR Y GWEILL GENNYM

Tudalennau i'w gwneud eto: 26-200

(x1) ADGOFION ANDRONICUS



O gur ei gystuddiau gerwin - ei hun,
.....Yng nghanol y ddryghin, —
...O'i serch, Andronicus in
...Ogrynai'r sypiau grawnwin.

Yn merw'r dyfroedd Mara, - o'i waeledd
.....Huliai'r wledd felusa —
...Yma er dysg, Gymry da,
...Mynwch gael profi'r Mana.

Llangollen..... HWFA MON
(Archdderwydd)

CAERNARFON
ARGRAPHWYD GAN Y WELSH
NATIONAL PRESS COMPANY (LTD)
SWYDDFA'R "GENEDL"
1894

(x2) *GWAG*

(x3) ANERCHIADAU

Cei fwynhad o'r Cofion hyn, —
ddarllenydd,
.....Er lloned amheuthyn —
...Hawdd i serch o'r cystudd syn,
...Diarbed, yw eu derbyn.

Diliau ynt, a gaed hyd làn — rhawd einioes
.....Gwr doniol, pereiddgan, —
...Barotodd y brawd diddan
...Yn rhodd ferth o'i orwedd-fan.

.....ALAFON.

Gyda'i *Adgofion* doniol — ein lloni
.....Wna'r llenor cystuddiol;
...Ac am y wledd ryfeddol
...Dylen' ni dalu yn ol.

.....EIFIONYDD

“Yn y Trên” y’th welais gynt
Yn myn’ d a do’ d ar ddifyr hynt,
Ac am greu hwyl a gwasgar gwên
Pwy mor fedrus a “Gwŷ y Trên?”

Gwelais di wed’ yn, am flwyddi maith,
Yn *methu* teithio, ond llawn o waith.
A Chymru deimlodd swyn *Adgofion*
Y “Cymro Gwyn,” rhwng bryniau Arfon
A chlywais rai yn dadleu’n d’**h**, —
Pa un debycaf i haul ar fryn,
Ai “Gwŷ y Trên?” ynte’r “Cymro Gwyn.”

Ond yr un wyt ti, er newid enw,
Ac yn dy arddull glir, dryloew,
Naturioldeb wêl ei delw!
Ni ddaeth culni a derbyn wyneb
Enoed i lwydo dy fraethineb,
“Edward Jones y Wenallt” rodia
Fraich-yn-mraich â’r “Wesle Ola’!”
Dyddanydd fuost i’n cenedl ni,
Daw cenedl yn awr i’th ddyddanu di.
.....ANTHROPOS.

(x4) *GWAG*

(x5) AT Y DARLLENYDD

Ar daer anogaeth llawer o’ m hen gyfeillion
yn mhob cwr o’ r wlad, yr ydwyf yn anturio
cynyg i’ m cydwladwyr y gyfrol fechan
hon, sef casgliad o rai o’ m ysgrifau a
ymddangosasant, o dro i dro, y blynyddau
diweddaf, yn rhai o Gylchgronau a
Newyddiaduron fy ngwlad.

Nid oes neb yn fwy ymwybodol na mi fy
hunan o lawer o wallau a diffygion sydd yn
britho y llyfr, ond teimlaf yn berffaith sicr
y maddeui i mi, hynaws ddarllenydd, pan
ddarlleni “Dipyn o fy Hanes,” ac y dealli o
dan ba amgylchiadau yr ysgrifenydd bob
gair.

Y mae genyf i ddiolch i Olygwyr y
Cylchgronau a’ r Newyddiaduron, yn mha
rai yr ymddanghosodd fy Adgofion, am eu
tiriondeb yn rhoddi hawl i mi eu cyhoeddi
yn fy llyfr.

Nid ymhelaethaf, oblegid fel rheol, y rhan
fwyaf diflas a difudd mewn cyfrol ydyw’ r
“Rhagymadrodd,” fel y canodd Mynyddog
ar ddechreu ei Drydedd Cynyg:

“Ni roddaf Ragymadrodd,
.....**’Dyw hyny ond lol dilês:
Cymerwch chwi fy llyfr,
.....Cymeraf finau’ r prês.”

.....Yn gywir,

.....ANDRONICUS.

Caernarfon, Nadolig, 1894

(x6)

CYNWYSIAD		
		TUDALE
Anerchiadau		x3
At y Darllenydd		x5
Cynwysiad		x6
Tipyn o Fy Hanes	Y cwmwl cyntaf — Beirniadaeth Dr Lewis	x9

	Edwards ar Feddargraph — Cwmwl dudew — Troi allan i'r byd - Manceinion — Dechreu teithio — Y gwyntoedd a ddaethant - A gaf fi fendio eto.	
Edward Jones o'r Wenallt (gyda darlun)	Yr Hen Wenallt — Edward Jones — Yn y Stondin — Fel Ffarier - Fel Blaenor — Ei Sasiwn olaf.	x23
Ned Ffowc y Blaenor	Codi blaenoriaid — Ethol pedwar — Gartref — Sara — Dechreu gweithio — Mari Dafydd.	x36
Adgofion am y Bala (gyda darluniau)	Rhagymadrodd — Hen Gapel y Bala - Maer y Bala — Y Prif Adeiladau - Yr Ysgolion - Y Colegau — Y Sasiwn — Diwygiad Crefyddol 1858 — Y Seiat. Robert Saunderson — Masnach y Bala. Y Ffeiriau - Y Seiat Bach - Ioan Dyfrdwy — Hen gymeriadau — Canu'n iach.	x46
Oriau gyda John Bright		x88
Y Ddyfrdwy Sanctaidd (gyda darluniau)	Llandderfel — Y Pale — Edward Jones, bardd y brenin - Hen Eglwys Derfel Gadarn — Llandrillo - Cader Bronwen	x95
Corwen, Tref Glyndwr	Rhug - Y Ffordd Ucha' — Cefnddwysarn - <i>Club House</i> Marged Jones	x106
(x7) Cynlas (gyda darlun)	Hanes yr hen deulu	x115
Eglwys Llywarch Hen	Troedigaeth dau bechadur	x119
Y Wesle Ola'		x123
Robat y Go', neu Heulwen a Chymylau	Heulwen — Cymylau	x127
***Steddfod Fawr Llangollen	Cychwyn — Cyrhaedd Llangollen — Pwy welais, pwy glywais - Cadeirio'r Bardd — Y Rhiangerdd — Seiat y Beirdd — Troi adre'	x141
Hen Sasiwn Plant		x149
Ponc Pant y Ceubren, neu Helyntion Chwarelwr	<i>Y Royal Charter</i> — Y Bwthyn Gwyn — Cornel y Lon — Dialedd Morgan Jenkins — O flaen y ***stusiaid — Myn'd i Awstralia - Yr hen deulu gartref — Ar ol saith mlynedd — Myn'd i gyfarfod Benja - Llythyr o Melbourne — Ail ddechreu byw — Yn y Bwthyn Gwyn eto — Diwedd glo	x153
Hen Goleg y Bala	Y Cosyn a'r <i>Ginger Wine</i> — Siomedigaeth	x165
Ymweliad Ned Ffowc a Llundan		x169
Michael Jones y Cyntaf		x181
Michael Jones yr Ail		x183
Ioan Pedr	Ei Ordeiniad - Simon Jones - Tomos Cadwaladr — Yn Nhir "Nod" — Twymo'r Capel - Rhoddi Deheulaw Cymdeithas	x185
Evan Peters	Ei febyd - Dan y cholera — ***D'od adref	x196

(x8) *GWAG*

(x9) ADGOFION ANDRONICUS.

TIPYN O FY HANES.

Nid ydwyf ar un cyfrif yn bwriadu ysgrifenu Hunan-gofiant, nid oes dim yn fy mywyd a fyddai o ddyddordeb yn y byd i neb o'm darllenwyr ei wybod. Ond enwaf rhyw ychydig o *land marks*, sydd yn fy hanes i fel yn hanes pob dyn cyffredin arall. Ni fyddai chwaith o un dyddordeb i neb wybod y dydd a'r awr, y mis a'r flwyddyn, y cyrhaeddais y byd pechadurus hwn. Digon yw dweyd fod llawenydd mawr pan wnaeth y mab cyntafanedig ei ymddanghosiad ar lwyfan byd o amser. Tra yr oedd eraill yn llawenhau ar yr amgylchiad, wylo wnai y baban. Gobeithiaf pan yn ymado a'r fuchedd hon y bydd y llawenhau o'm hochr i, beth bynag am y wylo o'r ochr arall. Caiff y darllenydd wybod cyn myn'd yn mhell lawn pa le y ganwyd fi, oblegid mewn llyfr o Adgofion y peth mwyaf naturiol ydyw i ysgrifenydd son am fangre ei febyd.

Y CWMWL CYNTAF.

Y cwmwl cyntaf a ddaeth uwch fy mhen yn nyddiau fy mebyd oedd colli brawd bychan pan oeddwn tua chwech oed. Aeth y bychan yn llaw ei dad rhyw foreu i dy ei nain, ac ni ddychwelodd byth mwyach i gydchwareu a mi, oblegid bu farw yn ddisyfyd o'r clefyd coch. Nid anghofiaf byth y loes a gefais pan glywais fod Llewelyn bach wedi myned i'r Nefoedd, yr "Ephraim" bach yr oeddwn i wedi helpu i'w ddysgu gerdded. Ni buaswn yn son o gwbl am yr amgylchiad hwn oni bai fod un peth lled bwysig i Ymneillduwyr wedi cymeryd (x10) lle ddydd ei gladdedigaeth yn mynwent Llangower, ar lan Llyn Tegid. Yn y flwyddyn 1848 yr oedd hyn, ac ni raid i mi ddweyd nad oedd Deddf Gladdu Osborne Morgan wedi ei phasio, ac felly

nid oedd rhyddid i weinidog Ymneillduol gymeryd rhan yn y gwasanaeth. Fodd bynag, er na chai Dr. Lewis Edwards halogi awryglch mynwent Llangower a'i lais, yr oedd y Duweinydd enwog yn ddigon gwrol, ac yn Ymneillduwr digon pybyr, i ufuddhau i gais taer fy nhad a darllen rhan o'r Beibl, a gweddio oddiallan i'r "tir cysegredig a sanctaidd." Yr oedd yr hen Reithor Jones yn hen wŷ caredig a rhyddfrydig ei feddwl, ond yr oedd yntau "dan awdurdod," ac yr oedd yn rhaid iddo ufuddhau i'r cyfreithiau Eglwysig, neu yr ydwyf yn sicr na fuasai gan yr hen foneddwr ddim gwrthwynebiad o gwbl i Lewis Edwards, Athraw y Coleg Methodus, i gael darllen y gwasanaeth, ac i bregethu hefyd o ran hyny. Pe buasai hyny wedi cymeryd lle buasai muriau hen Eglwys Llangower y pryd hyny wedi cael haner awr o Dduwinyddiaeth na chafodd "gynt na chwedyn;" pob parch i'r gwy^r da a fu neu y sydd yn llanw y pwlpudd.

Ar ol marwolaeth Llewelyn, cynygiodd fy nhad wobr i aelodau Cymdeithas Lenyddol y Bala o "gadach poced " Indian Silk am y beddargraph goreu i'r bychan oedd yn gorwedd is yr hen "ywen ddu ganghenog" yn mynwent Llangower. Y mae yna ddyinion yn y Bala heddyw yn cofio yn dda yr hen Gymdeithas Lenyddol a gynhelid yn llofft yr hen Goleg, yr hen Gymdeithas Lenyddol a ddechreuwyd o dan y pren gwyrddlas yn nghae y Rhiwlas, ac wedi hyny mewn cut mochyn ac ystabl, fel y bu rhyw ysgrifenydd yn ceisio rhoi yr hanes dro yn ol yn *Cymru* Owen M. Edwards. Wel, fe gynhaliwyd cyfarfod arbenig noson gwobr y "cadach poced." Yr oedd ugain o feirdd y Bala wedi gyru eu cyfansoddiadau i'r gystadleuaeth (ugain sylwch, a'r dyn fu yn ysgrifenu hanes y Gymdeithas Lenyddol yn *Cymru* wedi dweyd nad oedd yno ddim ond un neu ddau o feirdd yn y Bala, ffei o hono). Do, fe ymgeisiodd ugain (x11) o blant y Bala am y "cadach poced sidan." Dr. Lewis Edwards oedd y beirniad, ac yn y fan hon rhoddaf ei feirniadaeth. Yr wyf yn ei chodi

o'i lawysgrif ei hunan; mae'r tipyn papyr yn gysegredig yn ein teulu, a dyma eiriau fy hen fam anwyl wrth ei anfon i mi y dydd o'r blaen: - "Cofia gymeryd gofal o hono fo, **'machgen i. Yr ydwyf wedi ei gadw yn ofalus er's chwe biynedd a deugain."

"BEIRNIADAETH Y PENILLION A'R ENGLYNION."

"Heblaw prydfferthwch iaith a meddylrych, dylai penill neu englyn coffadwriaethol gynwys cymaint ar a ellir o gyfeiriad at amgylchiadau neillduol yn hanes y gwrthrych. Ac y mae yn ymddangos hefyd y dylai arwain meddwl y darlennydd at athrawiaeth yr Adgyfodiad, neu o leiaf at hanfodiad yr enaid mewn byd arall. Nid yw cyfeiriadau o'r fath yma yn ddigon ynddynt eu hunain; ond os bydd pob teilyngdod arall yn gyfartal y maent yn fwy na digon i droi y fantol. "Ar farwolaeth Llewellyn Jones, derbyniwyd Penillion gan Sala, Dafydd, Gwerfil las, Priddellwr, Multum in parvo, Aderyn y corph, Ehedwr, a Llywarch yr ail; ac englynion gan Cyfaill, Galarwr, Crwydryn, Guto Gof, Lwyd, Galarwr, Llywarch, Cymro Cochddu, Dafydd, Diawen, Beuno, Anwgan, a Cyffredin Dirodres. Yn y dosbarth mvchaf gellir rhestru Multum in Parvo, Aderyn y Corph, Ehedwr, Galarwr, Llywarch, Diawen, Cyffredin Dirodres, a Llywarch yr ail.

"Y mae englyn Cymro Cochddu yn gyfansoddiad campus; ond nid yw yn cyfeirio at hyder y Cristion. Nid oes ynddo un syniad "nas gallasai ddyfod oddiwrth un o'r hen feirdd Paganaid. Englyn da yw eiddo Dafydd o ran meddylrych, ond y mae pob llinell yn llawn o feiau yn erbyn rheolau cynghanedd. Y tri goreu o'r cwbl ydyw Llywarch, Cyffredin Dirodres, a Llywarch yr ail, ac y mae yn ymddangos i mi mai y goreu o'r tri ydyw Llywarch yr ail. Y mae ei benill yn ddadganiad syml o'r amgylchiad ac o'r teimladau a gynyrchid ganddo yn meddwl y tad a'r fam alarus.

Yn ei grybwylliad am y fam y mae yn symud y tu hwynt [sic = hwnt] i bob un o'r lleill. Y mae y symudiad disymwth hefyd yn niwedd y drydedd llinell o'r penill yn dra phrydferth. Ond dylasai fod llinell fer rhwng y gair 'sydyn' a'r geiriau 'tawn a son' i arwyddo cyfnewidiad mater fel y canlyn, —

'O dy ei dad cychwynai i'r Gilrhos yn dra lion; Cusanai **'i fam gan feddwl dod eto'n ol at hon; Ond gerwin oedd ei golli mor sydyn — tawn a son; Uwch poen mae'r bach penfelyn yn awr yn mynwes lon.' "Os nad wyf yn camsynied, hwn sydd yn haeddu y wobr.

.....L. EDWARDS."

(x12) Nid Eisteddfod Gadeiriol, ac nid Beirdd yn ol Defawd a Braint Beirdd Ynys Prydain oeddynt yn Llofft yr Hen Goleg y noson hono. Nid Pryddest ar Owain Glyndwr nac Awdl "Prydferthwch," neu "Diniweidrwydd" oedd y testyn; na, dim ond plentyn bychan, pedair oed, mab i siopwr bychan yn nhref y Bala. Nid Cadair, Coron, na Thlws oedd y wobr; na, dim ond "cadach poked sidan," ac Edward Jones Tailor & Draper, *deputy superintendent* David Evans. yn Ysgol Sul y plant gafodd y wobr. Wn i ddim yn lle y mae y "cadach poked sidan," ond gwn yn lle y mae awdwr y penill. Y mae yn nghanol y Nefoedd er's llawer dydd, ac y mae wedi gwel'd cyn hyn y "bach penfelyn," ac y mae wedi gwel'd ei dad, yr hwn hefyd sydd "uwchlaw poen" er's dros ddeugain mlynedd. Ond dyma beth oeddwn i yn myn'd i dreio ddweyd. Y mae Beirniadaeth Dr. Lewis Edwards, yr hon sydd yn awr ger fy mron, wedi ei hysgrifenu er's dros 48 o flynyddoedd, ac er mai at Gyfarfod Llenyddol llofft y Coleg yr oedd, lle nad oedd Caledfryn, Eben Fardd na Nicander yn tynu am y dorch, y mae wedi ei hysgrifenu yn drefnus a gofalus, pob sill a nodyn yn ei le. Mae'n batrwm i laweroedd yr oes hon. Y mae rhai awduron ac ysgrifenywyr yn tybied mai arddanghosiad o ddysgeidiaeth

a gallu ydyw ysgrifenu yn flêr, ac mai doethineb ydyw rhoddi mawr drafferth i wy^r y wasg. Nid dyna oedd syniad y Doethawr mawr o'r Bala. Y mae genyf fi lythyr a gefais oddiwrtho mewn atebiad i un o'm heiddo fi, yn y flwyddyn 1865..
Dyma fel y dechreua:—

“Daeth yr eiddoch heb ddyddiad i law.”

Yr oeddwn wedi anghono rhoddi y *date*, ond nid anghofiais byth wed'yn. Cafodd y wers y fath effaith arnaf fi fel y buasai yn llawer gwell genyf adael fy enw allan o lythyr na'r date. Arwyddair Dr. Lewis Edwards fyddai “Os ydyw rhywbeth yn werth ei wneyd o gwbl y mae yn werth ei wneyd yn iawn.”

(x13) CWMWL DUDEW.

Y brofedigaeth fawr nesaf oedd marwolaeth fy nhad, pan oeddwn yn brin ddeg oed, a'r hynaf o bedwar o fechgyn, gydag un chwaer ychydig hyn na mi. Newidiwyd ein holl ragolygon, a bu raid tori y cylch teuluaidd pan oedd rhai o honom yn; lled ieuanc, ond gofalodd Tad yr Amddifaid a Barnwr y Weddw am danom yn lled rhyfedd. Ni fuaswn yn son am yr amgylchiad hwn eto, ond fod un digwyddiad wedi cymeryd lle yn y gladdedigaeth sydd yn newydd i'r rhai ieuengaf o'm darllenwyr. Yr oedd gryn dwrw wedi codi y pryd hyny yn mhlith Ymneillduwyr yn erbyn yr hen arferiad Pabaidd o “offrwm” mewn cynhebryngau, a'm tad a gafodd y fraint o'i gladdu gyntaf gyda chladdedigaeth cyhoeddus yn hen Eglwys Llangower heb i'r arferiad o offrwrn gymeryd lle.

TROI ALLAN I'R BYD.

Cyfnod pwysig ydyw hwn yn hanes pob bachgen,— gadael yr aelwyd gynnes a throi allan i'r byd oer, oer, fel yr ia. Ond yr oeddwn yn llawn gobaith y cawn nerth yn ol y dydd, oblegid onid oedd y Doctoriaid Lewis Edwards a John Parry, a Griffith Jones, y blaenor, wedi rhoddi cynghorion da i mi yn y Seiat y noson cynt, ac onid

oedd fy hen athraw Robert Jones, y gof,
wedi gweddio yn daer droswyf wrth
ddiweddu y Seiat? Onid oedd hefyd un o'r
myfyrwyr oedd yn lletya yn nhy fy main
wedi gweddio droswyf ar y ddyledswydd
deuluaid y boreu y cychwynwn, a'm
mam, fy chwaer, a'm brodyr bach, wedi
addaw cofio am danaf bob nos a boreu?
Oeddwn, yr oeddwn yn teimlo mor ddewr
"a chawr i redeg gyrfa." Ond nid oes dim
yn y ffaith fy mod yn cychwyn oddicartref
yn werth sylw, mae miloedd o fechgyn
Meirion wedi gwneyd yr un peth, ac ni
buaswn yn dy flino, ddarllenydd tirion,
trwy gofnodi y ffaith, ond am ddau beth,
sef fy mod yn cychwyn oddicartref ar y
2gain o fis Hydref, 1859, sef y diwrnod yr
aeth y *Royal (x14) Charter* i lawr ar un o
draethellau Môn. Diwrnod dychrynlyd
ydoedd hwn i fachgen gychwyn ar daith o
chwe' milldir ar hugain ar ben y goach
fawr. Yr oeddwn yn cychwyn hefyd o
gynhesrwydd y Diwvgiad Mawr oedd wedi
dyfod fel ton dros ardaloedd Cymru.
Teimlwn yn ddigalon ar y daith. Nid
ydwyl fardd, ac ni fuom erioed, neu buasai
genyf destyn ardderchog pan oeddwn yn
teithio trwy Ddyffryn prydferth Llangollen
y diwrnod mawr hwnw. Yr oedd y gwlaw
yn disgyn yn un cenllif, a'r rhuthr-wynt yn
ysgytiau yr hen goed ar ochr y rfordd fel yr
oedd cawodydd o ddail Hydref yn disgyn
ar benau y teithwyr. Ond ni theimlwn yr
ystorom; oddi fewn, ac nid oddi faes, yr
oedd y storm fwyaf gyda mi. Fe faddeua y
darllenydd i mi am roddi y penill cyntaf a
gyfansoddais erioed, a hwnw wedi ei
nyddu ar ben y goach fawr y diwrnod
bythgofiadwy hwnw:—

"Cyn i mi lanchio'm llestrI ddyfnder
mor y byd, Lle mae peryglon filoedd,
.....A chroesau'n d'od o hyd ; Da i mi
fyddai cofio,Mai'm tad sydd wrth y
llyw — Efe yn ngwyneb **'stormydd
.....A all fy nghadw'n fyw." Rhaid i mi
beidio ymdroi neu buaswn yn dweyd tipyn
o hanes y tair blynedd dedwydd a dreuliais
yn Nghaerlleon. Cefais un o'r
meistradoedd goreu a charedicaf a gafodd

bachgen erioed, sef y diweddar Mr. William Evans, Dilledydd, mab yn nghyfraith Gwilym Hiraethog, a llawer tro y cefais yr anrhydedd o gyd-eistedd wrth yr un bwrdd a'r bardd anfarwol. Hefyd, delai y ffraeth Huw Puw Mostyn i dy^ fy meistr, a hefyd "Y Gohebydd."

MANCEINION.

Yn y flwyddyn 1863 symudais fy mhabell i'r ddinas enwog hon, a buom yn dal cysylltiad â hi am dros ddwy flynedd ar hugain, yn ystod pa amser y daethum (x15) yn gydnabyddus â nifer fawr o Gymry gwladgarol. Yr oeddwn yn aelod o Gymdeithas y "Cymreigyddion," yr hon a gynhelid yn Alton House. Pperthyna i'r gymdeithas hon Ceiriog, Creuddynfab, Derfel, Idris Vychan, a gwladgarwyr eraill, ac y mae yn rhaid i mi ddweyd fod yn perthyn iddi Ddicshondafyddion, na chyfarfyddais rai tebyg iddynt erioed. Siaradent bob amser yn Saesoneg, a byddai araeth Gymraeg gan un o'r Cymreigwyr yn ddiflas ganddynt. Ond mae yn dda genyf fod pethau wedi newid yn Manceinion erbyn hyn; mae'r Cymry yn dyfod allan fel un gwr gyda'i Chymdeithas "Cymru Fydd" i "Godi'r Hen Wlad yn ei hol."

Amseroedd terfysglyd oedd yn Manceinion yn y *Sixties* yn y byd politicaidd. Rhyddfrydiaeth oedd yn teyrnasu y pryd hyny yn mhrif ddinas y Cotwm. Nid oedd y *Conservative Workingman* wedi ei eni i'r byd y dyddiau hyny. Cynhaliai y Rhyddfrydwyr eu cyfarfodydd yn neuadd fawr y Free Trade Hall, ac yn yr ysgwar hanesyddol a elwir "Stephenson Square." Ond am y Ceidwadwyr, rhyw *hole and corner meetings* fyddai y rhai mwyaf a allent ymfrostio ynddynt. Ond erbyn hyn y mae Toriaeth wedi dyfod yn allu mawr yn mhrif ddinas Masnach Rydd. Yn awr cynhelir cyfarfodydd anferth gan y Toriaid yn y Free Trade Hall, a llenwir yr esgynlawr, ar ba un y clywyd lleisiau Cobden, Bright, Villiers, a Wilson, gan brif wieidyddwyr Toriaidd ein teyrnas.

Buom yn bresenol mewn llawer o gyfarfodydd bythgofiadwy yn y Free Trade Hall, nid y lleiaf ohonynt oedd pan ddaeth Mr. Gladstone i'r ddinas ar ol cael ei droi o Rydychain, ac y llefarodd y geiriau hanesyddol "*I appear before you unmuzzled.*" Nid cyfarfod i'w anghofio chwaith oedd y cyfarfod cyntaf y daeth Mr. Bright iddo yn Manceinion ar ol cael ei daflu allan o gynrychiolaeth y ddinas ugain mlynedd cyn hynny (gwel "Oriau gyda John Bright.")

Yn y flwyddyn 1867 torodd allan y cynhwrf Ffenaidd, a bu gryn derfysg yn Manceinion, pryd y lladdwyd

(x16) y Cwnstabl Brett tra yn myn'd a charcharor Ffenaidd i Garchardy Belle Vue. Dygwyd y llofruddion i'r ddalfa, ac o flaen y Frawdlys. Buom yn gwrando ar yr hyawdl Ernest Jones yn dadleu drostynt, ond er cymaint ei hyawdledd collfarnwyd tri o'r llofruddion. Nid ydwyf mewn un modd yn ymffrostio yn y ffaith, ond gwelais y tri llofrudd yn caeil eu hyrddio i'r byd arall oddiar y crogbren. Aethym i edrych ar yr olygfa ddychrynlyd fel gohebydd i un o newyddiaduron Caernarfon. Yr oedd yn olygfa nad anghofiaf byth. Y weithred oreu a wnaeth Llywodraeth Prydain erioed oedd gwneyd i ffwrdd â dienyddiadau cyhoeddus, a'r weithred nesaf ddylai fod diddymu y gosp o ddienyddio. Yr oedd blwyddyn 1868 yn llawn berw yn Manceinion fel yn mhob man arall trwy'r deyrnas. Yr oedd yr etholfraint dair onglog wedi cael ei gwneyd yn gyfraith y tir, a dinas y Cotwm fel Lerpwl, Leeds, Birmingham, a rhai dinasoedd eraill, wedi cael tri aelod, ond nis gellid pleidleisio ond dros ddau, felly aeth Tori i fewn ar ben y rhestr y tro cyntaf er 1832. Taflwyd Ernest Jones allan, ac etholwyd Birley, Bazley, a Bright (*the three B's*, fel y gelwid hwy gan bobl y ddinas). Ond rhaid i mi adael Manceinion yn y fan hon, gan fod fy meistr, Mr. Robert Roberts (brawd i'r meddyg enwog Syr William Roberts), yr hwn a adwaenir yn

awr wrth yr enw Robert Roberts, Ysw.,
U.H., Crug, ger Caernarfon, wedi cael
allan rywfodd fy mod yn ddigon o ddyn
neu “bechadur” i wneyd Trafeiliwr, a
gyrodd fi i Ddeheudir Cymru.

DECHREU TEITHIO.

Teithiais drwy bron bob cwmwd yn
Nghymru, “O ben Caergybi i ben
Caerdydd.” Y dref gyntaf i mi weithio yn y
Deheudir oedd Casnewydd. Cyrhaeddais
yno yn hwyr rhyw noson. Y boreu
dranoeth, pan yr oeddwn yn dechreu ar fy
moreufwyd, daethpwyd a’r *Western Mail*
ar y bwrdd; agorais ef, a’r peth cyntaf a
(x17) welwn oedd rhestr o’r rhai oeddynt
wedi eu hethol y diwrnod cynt, ac yn eu
plith Love Jones-Parry, dros Sir
Gaernarfon, gyda mwyafrif o 148, a E.
Mathew Richards, dros Sir Aberteifi, gyda
mwyafrif o 152. Ni fuaswn yn crybwyll y
ffaith hon ond am ei bod wedi digwydd fy
mod yn darllen y ffigyrau uchod o
oruchafiaeth Rhyddfrydiaeth mewn dwy o
siroedd mwyaf Toriaidd Cymru, yn yr
ystafell hanesyddol lle y llechai ynadon
Casnewydd, pan daniodd y *mob* Chartaidd
arnynt yn y flwyddyn 1848, ac y mae ol
bwledi y terfysgwyr i’w gweled ar
barwydydd yr ystafell hyd y dydd heddyw.

Yn ystod deunaw mlynedd o deithio, y
rhan fwyaf yn Ngogledd Cymru,
gwneuthum laweroedd o gyfeillion, ac y
mae y cyfeillgarwch yn parhau hyd y dydd
heddyw, fel y gwelir yn neillduol yn rhestr
y tanysgrifwyr at y gyfrol fechan hon.
Gofod a balla i mi adrodd llawer
digwyddiad dyddorol a gymerodd le yn
ystod y deunaw mlynedd o fywyd teithydd
masnachol. Yn y flwyddyn 1871 y
digwyddodd yr amgylchiad mwyaf
dyddorol a phwysig yn y cyfnod hwn, ac
yn fy mywyd hefyd o ran hyny, oblegid mi
a briodais wraig, un o ferched goreu Ynys
Mon, yr hon sydd er’s yn agos i bedair
blynedd ar hugain wedi bod i mi yn
gydmar ffyddlawn, ac fel angyles yn
gweini arnaf gyda phob sirioldeb ac
amynedd, yn ystod fy mlin a’ m maith

gystudd, ac wedi helpu llawer arnaf i
gasglu fy ADGOFION at eu gilydd.
Bendith y nefoedd fyddo ar ei phen.

Y GWYNTOEDD A DDAETHANT.

Pan ar ben dwy flynedd a deugain oed, “Y
llifddyfroedd a ddaethant, a’r gwyntoedd a
chwythasant” ar y babell bridd hon, “a’i
chwmp a fu fawr.” Yn y flwyddyn 1884
ymaflodd hen elyn y corph dynol, a’r
“swmbwl yn y cnawd,” y crydcymalau, yn
fy aelodau. Ymdrechais ymdrech dêg i
ymladd â’r gelyn, ond efe a orfu.

Gweinyddwyd arnaf gan rai o feddygon
goreu Cymru a Lloegr, ond y gelyn a fu
drech na hwynt, ac yr ydwyf er’s deng
mlynedd yn rhwym mewn cadwynau. Nid
boddllawn gan y poenydiwr fy mhoenydio
a gwiail ac ysgorpionau, rhaid iddo roddi
fy nhraed yn y cyffion a’ m carcharu. Ond
er mai carcharor ydwyf, yr wf yn
“garcharor gobeithiol.” Oblegid credu yr
ydwyf y daw ymwared pan ddel yr amser
cyfaddas, a hyny yr ochr yma i’r bedd. Yr
ydwyf wedi cael nerth trwy’r holl
flynyddoedd i fod yn llawen a siriol yn fy
holl brofedigaethau, ac yr oedd i bob
cwmwl a fu yn hofran uwch fy mhen
“silver lining,” ac erfyniaf am nerth i
ddweyd hyd ddiwedd fy ngyrfa, “Dy
ewyllys Di a wneler.”

Dyna, yn fyr ac yn fler, ddarllenwyd
hynaws, “Dipyn o fy Hanes,” ac yr ydwyf
yn sicr y bydd i ti, o dan yr amgylchiadau,
faddeu i mi am lawer o ffaeleddau sydd
wedi ymlusgo i’r gyfrol fechan a gynygiaf
i’th sylw.

°°A GAF FI FENDIO ETO?

Tra yn aros yn yr Hydropathic, yn
Llandudno, am rai wythnosau yn
ngwanwyn 1885, gyrais y penillion a
ganlyn at fy hen gyfaill hoff, y diweddar
Mr. J. D. Bryan, Caernarfon, yr hwn a fu
farw yn Cairo, ac y mae ei gorph yn
gorwedd yn dawel yn ngwlad y Pharoaid.
Gyrodd yntau y llinellau i’r Genedl
Gymreig :—

.....A gaf fi fendio eto?

.....A fyddaf megys cynt,
.....Yn sionc fy nhroed, yn iach fy
ngwedd,
.....Wrth fyned ar fy hynt?
.....A gaf fi fendio eto
.....O'r blinder poenus hwn,
.....Sy'n gwneyd fy nghalon egwan
.....Bron llethu dan y pwn?

.....A gaf fi byth ymwared
.....A'r crydcymalau blin
.....Sy'n gwneyd fy nghorphyn druan
.....Yn brophwyd i bob bin?
.....A gaf fi fendio eto,
.....I fyned yma a thraw,
.....Heb ofni gwynt y dwyrain,
.....Nac eira, rhew, na gwlaw?

(x19)

.....A gaf fi daflu ymaith
.....Y ddwyffon hyn cyn hir?
.....Fe fyddai hyny'n gysur,
.....O byddai, byddai'n wir;
.....A gaf fi fendio eto
.....I chwareu gyda'm plant,
.....I ddysgu Johnny gerdded,
.....A'i helpu dros y pant?
.....A ddaw y dydd caf rodio
.....Yn nghwmni f'anwyl Ann?

.....A ddaw y fath hapusrwydd
.....Byth eto i fy rhan?
.....A gaf fi fendio eto,
.....I fyn'd i dy fy Nuw,—
.....I glywed yr Efengyl,
.....A gwirioneddau gwiw?

.....A ddaw y dydd caf arwain
.....Fy mhlant i dy^ fy Nhad,
.....A'u rhoddi ar y llwybr
.....I fyn'd i'r hyfryd wlad?

.....O! Arglwydd, ti a wyddost
.....Yr holl ddirgelion mawr,
.....Ti wyddost a gaf eto
.....Byth iechyd ar y llawr ;
.....Tydi yw'r Meddyg mwya',
.....Ac yn dy law mae'r hawl,
.....Beth bynag fydd fy nhynged,
.....Mi roddaf iti fawl.

....." YN Y TREN."
Cyflwynedig i Mr. J. W. Jones
(Andronicus) yn ei gystudd, mewn atebiad
i'w linellau, "A gaf fi fendio eto," yn y
Genedl Gymreig.

.....Cei, cei, cei "fendio eto,"
.....A byddi "megis cynt "
....."Yn sionc dy droed, yn iach dy
wedd,"
....."Yn myned ar dy hynt;" (x20)
.....Cei, cei, cei "fendio eto,"
.....A byddi yn llawn gwên,
.....A'th "galon egwan" megys cynt,
.....Yn llawen "Yn y Trên."

.....Cei, cei, ti gei ymward
....."O'r crydcymalau blin,"
.....A bydd dy "gorph prophwydol"
gwan
.....Yn canu'n iach i'r hin;
.....Paid ofni na chei "fendio"
.....Cyn iti fyn'd yn hen,
.....Cawn dy gyfarfod cyn bo hir
.....Fel prophwyd "Yn y Trên."

.....Cei, cei, cei "daflu ymaith"
....."Y ddwyffon" cyn bo hir,
.....A byddi'n iach a heinyf fel
.....Tywysog yn y tir;
.....Ti fyddi eto'n chwareu
.....A "Johnny" yn llawn gwên,
.....A Chymru'n darllen hanes taith
.....Y gwr sydd "Yn y Trên."

.....Daw, daw, daw r dydd cei "rodio "
....."Yn nghwmni'th anwyl Ann,"
.....Yn llawn hapusrwydd fel o'r blaen,
.....Yn holliach yn y man;
.....Cei "wrando yr Efengyl,"
.....A'i "thrugareddau hen,"
.....A chodi'th lais yn erbyn trais,
.....Fel arfer, "Yn y Trên."

.....Cyn hir ti fyddi'n "arwain "
....."Dy blant i cy-dy Dad,"
....."A'u rhoddi ar,y llwybr " iawn
....."I fyn'd i'r hyfryd wlad;"

.....Mae Duw a'i noddod drosot,
.....Er iddo guddio'i wên,
.....Daw'th ddymuniadau oll i ben —
.....Cei "foli" "Yn y Trên."

EvertonS.
DARON JONES

(x21)

.....OS NA CHEI FENDIO
ETO.

Ar ol darllen llinellau Andronicus yn y
Genecdl yr wythnos ddiweddaf, ar y testyn
"A gaf fi fendio eto," fel hyn yr ysgrifena
Mr. W. O. Roberts (Madryn), The Groves,
Caerlleon.

.....Os na chei yma, gyfaill,
.....Yr adeg fel y bu,
.....Os na chei di ymadael
.....A'r crydcymalau du;
.....Os na chei wel'd, a theimlo,
.....A llwyr fwynhau iachad,
.....Er hyny cei ymddiried
.....Dy enaid i dy Dad.

.....Os na chei rodio'n heinyf
.....Ar lanau'r Fenai fwyn,
.....A theithio oddiamgylch ogylch
.....Drwy Gymru yn ddigwyn;
.....Os na chei ysgrifenu
.....Y llithoedd gwresog byw,
.....Mae eto ar dy gyfer
.....Drysorau gras ein Duw.

.....Os na chei eto ddarbod
.....Am dy anwyliaid llon,
.....A bod yn amddiffynydd
.....I'r fun roes iti fron;
.....Os na chei borthi bychain
.....Diaddysg Arfon dre',
.....Gofala'r Nef am gigfran
.....I'w porthi yn dy le.

..... Os na chei eto fendio
.....A rhodio is y rhod,
.....Mor iachus, sionc, a heinyf,
.....Fel buost ti erioed;
.....Cei foli'r Iôr mewn blinder
.....A llawnder mawr o nerth;

.....Fe gan y fron dan gystudd,
.....Fel eos yn y berth.

.....Os cei di eto fendio
.....A rhodio i Seion lân,
.....Gan lawen foli'r Iesu
.....Mewn geiriau pert a chan;
.....Fydd hyn ond dros fyr amser,
.....**'Dyw einioes dyn ond
brau,
.....Ein dyddiau cysgod ydynt,
.....Cawn fyned adre'n glau.

.....Ond p'am na chei di fendio,
.....A ph'am dioddefi'n awr,
.....A thithau'n gyfaill ffyddlon
.....I'r Iesu'r meddyg mawr ?
.....Y dall, y mud, a'r byddar,
.....A'r doff iachaodd Ef;
.....O Iesu, iacha Ioan,
.....A gwrando ar ei lef!

.....
.....MADRYN

.....Beth bynag fydd fy nhynged,
.....Mi roddaf iti fawl.

.....Os cei di eto fendio
.....A rhodio i Seion lân,
.....Gan lawen foli'r Iesu
.....Mewn geiriau pert a chan;
.....Fydd hyn ond dros fyr amser,
.....**'Dyw einioes dyn ond
brau,
.....Ein dyddiau cysgod ydynt,
.....Cawn fyned adre'n glau.


.....Ond p'am na chei di fendio,
.....A ph'am dioddefi'n awr,
.....A thithau'n gyfaill ffyddlon
.....I'r Iesu'r meddyg mawr ?
.....Y dall, y mud, a'r byddar,
.....A'r doff iachaodd Ef;
.....O Iesu, iacha Ioan,
.....A gwrando ar ei lef!

.....MADRYN



(x23) EDWARD JONES O'R
WENALLT.

Nid bardd, nid llenor, ac nid cerddor oedd
Edward Jones o'r Wenallt. Na, dim ond
ffermwr bychan ar stad Syr Watcyn;
"bwtsiar" bychan yn gwerthu cig bob dydd
Sadwrn mewn "stondin" wrth
dy^ tafarn yr Onen, yn Stryt Fawr y Bala.
Ond er



EDWARD JONES.

mai ffermwr bychan oedd, ac y byddai yn gwisgo ffedog las ac yn “sefyll y stondin” ar stryd y Bala, ni phasiodd Dr. Lewis Edwards na Dr. John Parry erioed mo “stondin” Edward Jones heb droi i ysgwyd llaw. Ni phasiodd chwaith yr hen Fichael Jones na’i fab mo’r “stondin” heb nodio pen yn siriol. Chymerasai dim un o fyfyrwyr y Bala, o David Charles Davies, y cyntaf ar restr y Coleg y dydd yr agorwyd ef yn 1837, hyd un o’r bechgyn oedd yn un o’r ddau goleg pan fu Edward Jones farw yn 1880, — ni chyrnerasai yr un o’honynt lawer am basio y “bwtsiar bach” heb nodio pen, a chael sgwrs efo fo. Pam, a oedd ein gwron yn rhyw dduweinydd mawr, neu beth? Nag oedd, ond yr oedd yn ddyn duwiol, yn hen wr siriol, ac wedi rhoddi help i lawer o fechgyn y coleg pan yn dechreu pregethu,

gyda'i wyneb siriol a'i eiriau caredig. Os bydd i un o'm darllenwyr ddigwydd teithio o'r Bala i Ddolgellau gyda'r tren, a chyfarfod ag un o hen fyfyrwyr y Bala, boed pwy fyddo, golygydd y *Traethodydd*, y *Drysorfa*, a *Chymru*, os mynwch, gofyned, — “Fedrwch chwi ddangos y Wenallt i mi? Oeddych chwi yn adnabod Edward Jones? “ Dyma fydd yr ateb, — “Dacw y Wenallt ar ben y bryn acw; adnabod Edward Jones, oeddwn debyg. Cefais lawer sgwrs efo fo yn y ty^ acw yr ydych yn edrych arno, pan yn myn'd ac yn dyfod i gapel Cefn Dwygraig.”

I. YR HEN WENALLT.

Safai yr hen Wenallt mewn pantle, rhwng y fan y saif y Wenallt presenol a'r llwyn o goed a elwir Nyrs F'achddeiliog, yn ymyl hen orsaf ffordd haiarn y Bala. Yr oedd ei safle yn nodweddiadol o arferiad yr hen bobl pan yn adeiladu eu tai. Yr oeddynt yn meddwl mwy am gysur a chynhesrwydd nag am olygfeydd. Ysbotyn felly ydyw y Pant Teg, lle safai yr hen Wenallt. Lle felly fyddai y Tylwyth Teg yn ei hoffi, a llawer oedd yr ystraeon am fel y byddai y bodau hyny yn chwareu eu pranciau yn Mhant Teg y Wenallt. Darfu i'r diweddar Edward Evans, y Bala, lawer tro pan oeddwn yn hogyn bychan, ddangos i mi ryw gylch ar y ddaear; dyna ddwedai ef oedd y lle y byddai y Tylwyth Teg yn dawnsio. Wel, ryw brydnawn Sabboth yn y flwyddyn 1820, yr oedd teulu y Wenallt wedi myn'd i'r ysgol a gynhelid yn y Cornelau, ffermdy yn Nghefn Dwygraig, — (x25). yr oedd hyny cyn son am gapel y Glyn, Cefn Dwygraig, na Llwyneinion, — pan ddaeth y teulu yn ol o'r Ysgol Sul, gan feddwl cael cwpanaid o de yn yr hen gartref clyd, yr oedd yr hen gartref wedi llosgi i'r llawr, ac ni achubwyd dim o'r dinystr ond daubeth, medd yr hanes, sef cloc gwyneb pres, a hen Feibl Peter Williams, yr hyn oedd yn wyrth yn sicr. Mae llawer o hen fyfyrwyr y Bala yn cofio hen gloc gwyneb pres y Wenallt, fyddai fel holl glaciau y wlad, “awr cyn ei amser.”

Pan ddeuai myfyriwr newydd i'r Bala, a chychwyn i Gefn Dwygraig tua haner awr wedi wyth, i fod yno erbyn naw, — gwaith haner awr ydoedd y daith, —byddai wedi dychryn pan welai yr amser ar yr hen gloc, ond dywedai Sarah Jones yn siriol, — “O mae'r hen gloc awr yn ffast.” Am Feibl Peter Williams, cafodd llawer myfyriwr ddarllen penod ynddo, wrth gadw dyledswydd yn y Wenallt. Fel y dywedais o'r blaen, ar ben y bryn y mae y Wenallt newydd, a gwelir o ddrws y ty^ olygfa. ardderchog. Teulu y Wenallt pan aeth ar dân oedd Evan a'i wraig Mari Jones. Yr oedd iddynt wyth o blant. Aeth y ddau fab hynaf Evan a Morris i'r Amerig pan yn ieuainc iawn. Bu rhai o'r plant drosodd yn y wlad hon flynyddoedd yn ol. Dringodd rhai o honynt i sefyllfaoedd uchel mewn cymdeithas, a buont yn anrhydedd i wlad eu tadau. Os wyf yn cofio yn iawn bu un o honynt mewn sefyllfa bwysig yn un o Brifysgolion gwlad yr Amerig. Aeth Peter Jones i gartrefu i'r Merddyn Mare, ac wedi hyny i'r Rhyd Wen, llie y mae yn awr ei fab Morris Peters, — brawd iddo ef oedd Evan Peters, yr arch-holwr plant, a Mr. Edward Peters, tad Dr. Peters, Bala. Yr oedd Peter Jones yn un o ferthyron brwydr fawr etholiadol Wynn o Beniarth a Dafydd Williams. Cartrefodd John yn y Gilrhos; bu farw yn lled ieuanc, ond bu fyw ei wraig Mari am lawer o flynyddoedd, a bydd genyf gryn lawer i ddweyd am yr hen chwaer cyn y diwedd. Edward, y mab ieuengaf, ydyw arwr fy ysgrif. Bu hefyd i'r hen deulu dair merch, — sef Jane, Anne, ac Elizabeth, hon (x26)

ADGOFION

ANDRONICUS.

1842-1895



*O gur ei gystuddiau gerwin,—ei hun,
Yn nghanol y ddryghin,—
O'i serch, Andronicus in
Ogrynai'r sypiau graenwin.*

*Yn merw'r dyfroedd Mara,—o'i waeledd
Hullai'r wledd feiusa,—
Yma er dysg, Gymry da,
Mynwch gael profi'r Mana.*

Llangollen.

HWFA MON (Archdderwydd).

CAERNARFON :

ARGRAPHWYD GAN Y WELSH NATIONAL PRESS COMPANY (LTD.),
SWYDDFA'R "GENEDL."

1894.

ANERCHIADAU.

Cei fwynhad o'r Cofion hyn,—ddarlleneydd,
Er lloned amheuthyn—
Hawdd i serch o'r cystudd syn,
Diarbed, yw eu derbyn.

Diliau ynt, a gaed hyd lân—rhawd einioes
Gwr doniol, pereiddgan,—
Barotödd y brawd diddan
Yn rhodd ferth o'i orwedd-fan.

ALAFON.

Gyda'i *Adgofion* doniol—ein lloni
Wna'r llenor cystuddiol;
Ac am y wledd ryfeddol
Dylen' ni dalu yn ol.

EIFIONYDD.

"Yn y Trên" y'th welais gynt
Yn myn'd a do'd ar ddifyr hynt,
Ac am greu hwyl a gwasgar gwên
Fwy mor fedrus a "Gŵr y Trên?"

Gwelais di wed'yn, am flwyddi maith,
Yn *methu* teithio, ond llawn o waith.
A Chymru deimlodd swyn *Adgofion*
Y "Cymro Gwyn," rhwng bryniau Arfon.
A chlywais rai yn dadleu'n dŷn,—
Pa un debycaf i haul ar fryn,
Ai "Gŵr y Trên" ynte'r "Cymro Gwyn."

Ond yr *un* wyt ti, er newid enw,
Ac yn dy arddull glir, dryloew,
Naturioldeb wél ei delw!
Ni ddaeth culni a derbyn wyneb
Erioed i lwydo dy fraethineb;
"Edward Jones y Wenallt" rodia
Fraich-yn-mraich â'r "Wesle Ola'!"
Dyddanydd fuost i'n cenedl ni,
Daw *cenedd* yn awr i'th ddyddanu di.

ANTHROPOS.

At y Darllenydd.

—: o :—

A R daer anogaeth llawer o'm hen gyfeillion yn mhob cwr o'r wlad, yr ydwyf yn anturio cynyg i'm cydwladwyr y gyfrol fechain hon, sef casgliad o rai o'm ysgrifau a ymddangosasant, o dro i dro, y blynyddau diweddaf, yn rhai o Gylchgronau a Newyddiaduron fy ngwlad.

Nid oes neb yn fwy ymwybodol na mi fy hunan o lawer o wallau a diffygion sydd yn britho y llyfr, ond teimlaf yn berffaith sicr y maddeui i mi, hynaws ddarllenydd, pan ddarlleni "Dipyn o fy Hanes," ac y dealli o dan ba amgylchiadau yr ysgrifenyd bob gair.

Y mae genyf i ddiolch i Olygwyr y Cylchgronau a'r Newyddiaduron, yn mha rai yr ymddanghosodd fy *Adgofion*, am eu tiriondeb yn rhoddi hawl i mi eu cyhoeddi yn fy llyfr.

Nid ymhelaethaf, oblegid fel rheol, y rhan fwyaf diflas a difudd mewn cyfrol ydyw'r "Rhagymadrodd," fel y canodd Mynyddog ar ddechreu ei *Drydedd Cynyg*:

"Ni roddaf Ragymadrodd,
'Dyw hyny ond lol dilës;
Cymërwch chwi fy llyfr,
Cymeraf finau 'r prés."

Yn gywir,

ANDRONICUS.

Caer narfon, Nadolig, 1894.

CYNWYSIAD.

	TUDAL.
Anerchiadau	3
At y Darlennydd	5
Cynwysiad	6
Tipyn o Fy Hanes	9
Y cwmwl cyntaf.—Beirniadaeth Dr. Lewis Edwards ar Feddargraph.—Cwmwl dudew.—Troi allan i'r byd.—Manceinion.—Dechreu teithio.—Y gwyntoedd a ddaethant.—A gaf fi fendio eto.	
Edward Jones o'r Wenallt (gyda darlun)	23
Yr Hen Wenallt.—Edward Jones.—Yn y Stodin.—Fel Ffarier.—Fel Blaenor.—Ei Sasiwn olaf.	
Ned Ffowc y Blaenor	36
Codi blaenoriaid.—Ethol pedwar.—Gartref.—Sara.—Dechreu gweithio.—Mari Dafydd.	
Adgofion am y Bala (gyda darluniau)	46
Rhagymadrodd.—Hen Capel y Bala.—Maer y Bala.—Y Prif Adeiladau.—Yr Ysgolion.—Y Colegau.—Y Sasiwn.—Diwygiad Crefyddol 1858.—Y Seiat. Robert Saunderson.—Masnach y Bala.—Y Ffeiriau.—Y Seiat Bach.—Ioan Dyfrdwy.—Hen gymeriadau.—Canu'n iach.	
Oriau gyda John Bright	88
Y Ddyfrdwy Sanctaidd (gyda darluniau)	95
Llandderfel.—Y Palé.—Edward Jones, bardd y bronin.—Hen Eglwys Derfel Gadarn.—Llandrillo.—Cader Bronwen.	
Corwen, Tref Glyndwr	106
Rhug.—Y Ffordd Ucha'.—Cefnddwysarn.— <i>Club House</i> Marged Jones.	

CYNWYSIAD.	vii.
	TUDAL.
Cynlas (gyda darlun)	115
Hanes yr hen deulu.	
Eglwys Llywarch Hen	119
Troedigaeth dau bechadur	
Y Wesle Ola'	123
Robot y Go', neu Heulwen a Chymylau	127
Heulwen. — Cymylau.	
'Steddfod Fawr Llangollen	141
Cychwyn. — Cyrhaedd Llangollen. — Pwy wela, pwy glywais. — Cadeirio'r Bardd. — Y Rhiangerdd. — Seiat y Beirdd. — Troi adre.	
Hen Sasiwn Plant	149
Ponc Pant y Ceubren, neu Helyntion Chwarelwr	153
Y <i>Royal Charter</i> . — Y Bwthyn Gwyn. — Cornel y Lon. — Dialedd Morgan Jenkins. — O flaen y 'stusiaid. — Myn'd i Awstralia. — Yr hen deulu gartref. — Ar ol saith mlynedd. — Myn'd i gyfarfod Benja. — Llythyr o Melbourne. — Ail ddechreu byw. — Yn y Bwthyn Gwyn eto. — Diweddglo.	
Hen Goleg y Bala	165
Y Cosyn a'r <i>Ginger Wine</i> . — Siomedigaeth.	
Ymweliad Ned Ffowc â Llundan	169
Michael Jones y Cyntaf	181
Michael Jones yr Ail	183
Ioan Pedr	185
Ei Ordeiniad. — Simon Jones. — Tomos Cadwaladr. — Yn Nhir "Nod." — Twymo'r Capel. — Rhoddi Deheulaw Cymdeithas.	
Evan Peters	196
Ei febyd. — Dan y <i>cholera</i> . — D'od adref. — Priodi. — Peter Jones ac Etholiad 1859. — Gwyl arbenig. — Nôd clust. — Fy oen llyweth.	

ADGOFION ANDRONICUS.

TIPYN O FY HANES.

NID ydwyf ar un cyfrif yn bwriadu ysgrifenu Hunan-gofiant, nid oes dim yn fy mywyd a fyddai o ddyddordeb yn y byd i neb o'm darllenywr ei wybod. Ond enwaf rhyw ychydig o *land marks* sydd yn fy hanes i fel yn hanes pob dyn cyffredin arall.

Ni fyddai chwaith o un dyddordeb i neb wybod y dydd a'r awr, y mis a'r flwyddyn, y cyrhaeddais y byd pechadurus hwn. Digon yw dweyd fod llawenydd mawr pan wnaeth y mab cyntafanedig ei ymddangosiad ar lwyfan byd o amser. Tra yr oedd eraill yn llawenhau ar yr amgylchiad, wylo wnaï y baban. Gobeithiaf pan yn ymado â'r fuchedd hon y bydd y llawenhau o'm hochr i, beth bynag am y wylo o'r ochr arall. Caiff y darllenydd wybod cyn myn'd yn mhell iawn pa le y ganwyd fi, oblegid mewn llyfr o *Adgofion* y peth mwyaf naturiol ydyw i ysgrifenydd son am fangre ei febyd.

Y CWMWL CYNTAF.

Y cwmwl cyntaf a ddaeth uwch fy mhen yn nyddiau fy mebyd oedd còlli brawd bychan pan oeddwn tua chwech oed. Aeth y bychan yn llaw ei dad rhyw foreu i dŷ ei nain, ac ni ddychwelodd byth mwyach i gydchwareu â mi, oblegid bu farw yn ddisyfyd o'r clefyd coch. Nid anghofiaf byth y loes a gefais pan glywais fod Llewelyn bach wedi myned i'r Nefoedd, yr "Ephraim" bach yr oeddwn i wedi helpu i'w ddysgu gerdded. Ni biaswn yn son o gwbl am yr amgylchiad hwn oni bai fod un peth lled bwysig i Ymneillduwyr wedi cymeryd

B

Nid Eisteddfod Gadeiriol, ac nid Beirdd yn ol Defawd a Braint Beirdd Ynys Prydain oeddynt yn Llofft yr Hen Goleg y noson hono. Nid Pryddest ar Owain Glyndwr nac Awdl "Prydferthwch," neu "Diniweidrwydd" oedd y testyn; na, dim ond plentyn bychan pedair oed, mab i siopwr bychan yn nhref y Bala. Nid Cadair, Coron, na Thlws oedd y wobr; na, dim ond "cadach poced sidan," ac Edward Jones, Tailor & Draper, *deputy superintendent* David Evans yn Ysgol Sul y plant gafodd y wobr. Wn i ddim yn lle y mae y "cadach poced sidan," ond gwn yn lle y mae awdwr y penill. Y mae yn nghanol y Nefoedd er's llawer dydd, ac y mae wedi gwel'd cyn hyn y "bach penfelyn," ac y mae wedi gwel'd ei dad, yr hwn hefyd sydd "uwchlaw poen" er's dros ddeugain mlynedd. Ond dyma beth oeddwn i yn myn'd i dreio ddweyd. Y mae Beirniadaeth Dr. Lewis Edwards, yr hon sydd yn awr ger fy mron, wedi ei hysgrifenu er's dros 48 o flynyddoedd, ac er mai at Gyfarfod Llenyddol llofft y Coleg yr oedd, lle nad oedd Caledfryn, Eben Fardd na Nicander yn tynu am y dorch, y mae wedi ei hysgrifenu yn drefnus a gofalus, pob sill a nodyn yn ei le. Mae'n batrwm i laweroedd yr oes hon. Y mae rhai awduron ac ysgrifenywyr yn tybied mai arddanghosiad o ddysgeidiaeth a gallu ydyw ysgrifenu yn flêr, ac mai doethineb ydyw rhoddi mawr drafferth i wŷr y wasg. Nid dyna oedd syniad y Doethawr mawr o'r Bala. Y mae genyf fi lythyr a gefais oddiwrtho mewn atebiad i un o'm heiddo fi, yn y flwyddyn 1865. Dyma fel y dechreua:—

"Daeth yr eiddoch heb ddyddiad i law."

Yr oeddwn wedi anghofio rhoddi y *date*, ond nid *anghofiais* byth wed'yn. Cafodd y wers y fath effaith arnaf fi fel y buasai yn llawer gwell genyf adael fy enw allan o lythyr na'r *date*. Arwyddair Dr. Lewis Edwards fyddai "Os ydyw rhywbeth yn werth ei wneyd o gwbl y mae yn werth ei wneyd yn iawn."

o blant y Bala am y "cadach poced sidan." Dr. Lewis Edwards oedd y beirniad, ac yn y fan hon rhoddaf ei feirniadaeth. Yr wyf yn ei chodi o'i lawysgrif ei hunan; mae'r tipyn papyr yn gysegredig yn ein teulu, a dyma eiriau fy hen fam anwyl wrth ei anfon i mi y dydd o'r blaen:—"Cofia gymeryd gofal o hono io, 'machgen i. Yr ydwyf wedi ei gadw yn ofalus er's chwe blynedd a deugain."

"BEIRNIADAETH Y PENILLION A'R ENGLYNION."

"Heblaw prydferthwch iaith a meddylrych, dylai penill neu englyn coffadwriaethol gynnwys cymaint ar a ellir o gyfeiriad at amgylchiadau neillduol yn hanes y gwrthrych. Ac y mae yn ymddangos hefyd y dylai arwain meddwl y darlennydd at athrawiaeth yr Adgyfodiad, neu o leiaf at hanfodiad yr enaid mewn byd arall. Nid yw cyfeiriadau o'r fath yma yn ddigon ynddynt eu hunain; ond os bydd pob teilyngdod arall yn gyfartal y maent yn fwy na digon i droi y fantol.

"Ar farwolaeth Llewellyn Jones, derbyniwyd Penillion gan Sala, Dafydd, Gwerfil las, Priddellwr, Multum in parvo, Aderyn y corph, Ehedwr, a Llywarch yr ail; ac englynion gan Cyfaill, Galarwr, Crwydryn, Guto Gôf, Lwyd, Galarwr, Llywarch, Cymro Cochddu, Dafydd, Diawen, Beuno, Anwgan, a Cyffredin Dirodres. Yn y dosbarth uwchaf gellir rhestru Multum in Parvo, Aderyn y Corph, Ehedwr, Galarwr, Llywarch, Diawen, Cyffredin Dirodres, a Llywarch yr ail.

"Y mae englyn Cymro Cochddu yn gyfansoddiad campus; ond nid yw yn cyfeirio at hyder y Cristion. Nid oes ynddo un syniad nas gallasai ddyfod oddiwrth un o'r hen feirdd Paganaid. Englyn da yweiddo Dafydd o ran meddylrych, ond y mae pob llinell yn llawn o feiau yn erbyn rheolau cynghanedd. Y tri goreu o'r cwbl ydyw Llywarch, Cyffredin Dirodres, a Llywarch yr ail, ac y mae yn ymddangos i mi mai y goreu o'r tri ydyw Llywarch yr ail. Y mae ei benill yn ddadganiad syml o'r amgylchiad ac o'r teimladau a gynyrchid ganddo yn meddwl y tad a'r fam alarus. Yn ei grybwylliad am y fam y mae yn symud y tu hwynt i bob un o'r lleill. Y mae y symudiad disymwth hefyd yn niwedd y drydedd llinell o'r penill yn dra phrydferth. Ond dylasai fod llinell fer rhwng y gair 'sydyn' a'r geiriau 'tawn a son' i arwyddo cyfnewidiad mater fel y canlyn, —

'O dy ei dad cychwynai i'r Gilrhos yn dra llon;

Cusanai i fam gan feddwl dod eto 'n ol at hon;

Ond gerwin oedd ei golli mor sydyn—tawn a son;

Uwch poen mae'r bach penfelyn yn awr yn mynwes Ion.

"Os nad wyf yn camsynied, hwn sydd yn haeddu y wobr.

L. EDWARDS."

Nid Eisteddfod Gadeiriol, ac nid Beirdd yn ol Defawd a Braint Beirdd Ynys Prydain oeddynt yn Llofft yr Hen Goleg y noson hono. Nid Pryddest ar Owain Glyndwr nac Awdl "Prydferthwch," neu "Diniweidrwydd" oedd y testyn; na, dim ond plentyn bychan pedair oed, mab i siopwr bychan yn nhref y Bala. Nid Cadair, Coron, na Thlws oedd y wobwr; na, dim ond "cadach poced sidan," ac Edward Jones, Tailor & Draper, *deputy superintendent* David Evans yn Ysgol Sul y plant gafodd y wobwr. Wn i ddim yn lle y mae y "cadach poced sidan," ond gwn yn lle y mae awdwr y penill. Y mae yn nghanol y Nefoedd er's llawer dydd, ac y mae wedi gwel'd cyn hyn y "bach penfelyn," ac y mae wedi gwel'd ei dad, yr hwn hefyd sydd "uwchlaw poen" er's dros ddeugain mlynedd. Ond dyma beth oeddwn i yn myn'd i dreio ddweyd. Y mae Beirniadaeth Dr. Lewis Edwards, yr hon sydd yn awr ger fy mron, wedi ei hysgrifenu er's dros 48 o flynyddoedd, ac er mai at Gyfarfod Llenyddol llofft y Coleg yr oedd, lle nad oedd Caledfryn, Eben Fardd na Nicander yn tynu am y dorch, y mae wedi ei hysgrifenu yn drefnus a gofalus, pob sill a nodyn yn ei le. Mae'n batrwm i laweroedd yr oes hon. Y mae rhai awduron ac ysgrifenywyr yn tybied mai arddanghosiad o ddysgeidiaeth a gallu ydyw ysgrifenu yn flêr, ac mai doethineb ydyw rhoddi mawr drafferth i wŷr y wasg. Nid dyna oedd syniad y Doethawr mawr o'r Bala. Y mae genyf fi lythyr a gefais oddiwrtho mewn atebiad i un o'm heiddo fi, yn y flwyddyn 1865. Dyma fel y dechreua:—

"Daeth yr eiddoch heb ddyddiad i law."

Yr oeddwn wedi anghofio rhoddi y *date*, ond nid *anghofiais* byth wed'yn. Cafodd y wers y fath effaith arnaf fi fel y buasai yn llawer gwell genyf adael fy enw allan o lythyr na'r *date*. Arwyddair Dr. Lewis Edwards fyddai "Os ydyw rhywbeth yn werth ei wneyd o gwbl y mae yn werth ei wneyd yn iawn."

CWMWL DUDEW.

Y brofedigaeth fawr nesaf oedd marwolaeth fy nhad, pan oeddwn yn brin ddeg oed, a'r hynaf o bedwar o fechgyn, gydag un chwaer ychydig hyn na mi. Newid- iwyd ein holl ragolygon, a bu raid tori y cylch teuluaid pan oedd rhai o honom yn lled ieuanc, ond gofalodd Tad yr Amddifaid a Barnwr y Weddw am danom yn lled rhyfedd. Ni fuaswn yn son am yr amgylchiad hwn eto, ond fod un digwyddiad wedi cymeryd lle yn y gladd- edigaeth sydd yn newydd i'r rhai ieuengaf o'm darllen- wyr. Yr oedd gryn dwrw wedi codi y pryd hyny yn mhllith Ymneillduwyr yn erbyn yr hen arferiad Pabaidd o "offrwm" mewn cynhebryngau, a'm tad a gafodd y fraint o'i gladdu gyntaf gyda chladdedigaeth cyhoeddus yn hen Eglwys Llangower heb i'r arferiad o offrwm gymeryd lle.

TROI ALLAN I'R BYD.

Cyfnod pwysig ydyw hwn yn hanes pob bachgen,— gadael yr aelwyd gynnes a throï allan i'r byd oer, oer, fel yr ia. Ond yr oeddwn yn llawn gobaith y cawn nerth yn ol y dydd, oblegid onid oedd y Doctoriaid Lewis Edwards a John Parry, a Griffith Jones, y blaenor, wedi rhoddi cynghorion da i mi yn y Seiat y noson cynt, ac onid oedd fy hen athraw Robert Jones, y gôf, wedi gweddio yn daer droswyf wrth ddiweddu y Seiat? Onid oedd hefyd un o'r myfyrwyr oedd yn lletya yn nhy fy mam wedi gweddio droswyf ar y ddyledswydd deulu- aidd y boreu y cychwynwn, a'm mam, fy chwaer, a'm brodyr bach, wedi addaw cofio am danaf bob nos a boreu? Oeddwn, yr oeddwn yn teimlo mor ddewr "a chawr i redeg gyrfa."

Ond nid oes dim yn y ffaith fy mod yn cychwyn oddicartref yn werth sylw, mae miloedd o fechgyn Meirion wedi gwneyd yr un peth, ac ni buaswn yn dy flino, ddarllenydd tirion, trwy gofnodi y ffaith, ond am ddau beth, sef fy mod yn cychwyn oddicartref ar y 29ain o fis Hydref, 1859, sef y diwrnod yr aeth y *Royal*

Charter i lawr ar un o draethellau Môn. Diwrnod dychrynlyd ydoedd hwn i fachgen gychwyn ar daith o chwe' milldir ar hugain ar ben y goach fawr. Yr oeddwn yn cychwyn hefyd o gynhesrwydd y Diwygiad Mawr oedd wedi dyfod fel ton dros ardaloedd Cymru. Teimlwn yn ddigalon ar y daith. Nid ydwyf fardd, ac ni fuom erioed, neu buasai genyf destyn ardderchog pan oeddwn yn teithio trwy Ddyffryn prydfferth Llangollen y diwrnod mawr hwnw. Yr oedd y gwlaw yn disgyn yn un cennlif, a'r rhuthr-wynt yn ysgytian yr hen goed ar ochr y ffordd fel yr oedd cawodydd o ddail Hydref yn disgyn ar benau y teithwyr. Ond ni theimlwn yr ystorom; oddi fewn, ac nid oddi faes, yr oedd y storm fwyaf gyda mi. Fe faddeua y darlennydd i mi am roddi y penill cyntaf a gyfansoddais erioed, a hwnw wedi ei nyddu ar ben y goach fawr y diwrnod bythgofiadwy hwnw:—

" Cyn i mi lanchio'm llestr
I ddyfnder môr y byd,
Lle mae peryglon filoedd,
A chroesau'n d'od o hyd;
Da i mi fyddai cofio,
Mai'm tad sydd wrth y llyw—
Efe yn ngwyneb 'stormydd
A all fy nghadw'n fyw."

Rhaid i mi beidio ymdroi neu buaswn yn dweyd tipyn o hanes y tair blynedd dedwydd a dreuliais yn Nghaerlleon." Cefais un o'r meistradoedd goreu a char-edicaf a gafodd bachgen erioed, sef y diweddar Mr. William Evans, Dilledydd, mab yn nghyfraith Gwilym Hiraethog, a llawer tro y cefais yr anrhydedd o gyd-eis-tedd wrth yr un bwrdd a'r bardd anfarwol. Hefyd, delai y ffraeth Huw Puw Mostyn i dŷ fy meistr, a hefyd "Y Gohebydd."

MANCEINION.

Yn y flwyddyn 1863 syhmudais fy mhabell i'r ddinas enwog hon, a buom yn dal cysylltiad â hi am dros ddwy flynedd ar hugain, yn ystod pa amser y daethum

yn gydnabyddus â nifer fawr o Gymry gwladgarol. Yr oeddwn yn aelod o Gymdeithas y "Cymreigyddion," yr hon a gynhelid yn Alton House. Perthynai i'r gymdeithas hon Ceiriog, Creuddynfab, Derfel, Idris Vychan, a gwladgarwyr eraill, ac y mae yn rhaid i mi ddweyd fod yn perthyn iddi Ddicshondafyddion, na chyfarfyddais rai tebyg iddynt erioed. Siaradent bob amser yn Saesoneg, a byddai araeth Gymraeg gan un o'r Cymreigwyr yn ddiflas ganddynt. Ond mae yn dda genyf fod pethau wedi newid yn Manceinion erbyn hyn; mae'r Cymry yn dyfod allan fel un gwr gyda'i Chymdeithas "Cymru Fydd" i "Godi'r Hen Wlad yn ei hol."

Amseroedd terfysglyd oedd yn Manceinion yn y *Sixties* yn y byd politicaidd. Rhyddfrydiaeth oedd yn teyrnasu y pryd hyny yn mhrif ddinas y Cotwm. Nid oedd y *Conservative Workingman* wedi ei eni i'r byd y dyddiau hyny. Cynhaliai y Rhyddfrydwyr eu cyfarfodydd yn neuadd fawr y Free Trade Hall, ac yn yr ysgwar hanesyddol a elwir "Stephenson Square." Ond am y Ceidwadwyr, rhyw *hole and corner meetings* fyddai y rhai mwyaf a allent ymfrostio ynddynt. Ond erbyn hyn y mae Toriaeth wedi dyfod yn allu mawr yn mhrif ddinas Masnach Rydd. Yn awr cynhelir cyfarfodydd anferth gan y Toriaid yn y Free Trade Hall, a llenwir yr esgynlawr, ar ba un y clywyd lleisiau Cobden, Bright, Villiers, a Wilson, gan brif wleidyddwyr Toriaidd ein teyrnas. Buom yn bresenol mewn llawer o gyfarfodydd bythgofiadwy yn y Free Trade Hall, nid y lleiaf ohonynt oedd pan ddaeth Mr. Gladstone i'r ddinas ar ol cael ei droi o Rydychain, ac y llefarodd y geiriau hanesyddol "*I appear before you unmuzzled.*" Nid cyfarfod i'w anghofio chwaith oedd y cyfarfod cyntaf y daeth Mr. Bright iddo yn Manceinion ar ol cael ei daflu allan o gynrychiolaeth y ddinas ugain mlynedd cyn hyny (gwel "Oriau gyda John Bright.")

Yn y flwyddyn 1867 torodd allan y cynhwrf Ffenaid, a bu gryn derfysg yn Manceinion, pryd y lladdwyd

y Cwnstabl Brett tra yn myn'd a charcharor Ffenaid i Garchardy Belle Vue. Dygwyd y llofruddion i'r ddalfa, ac o flaen y Frawdlys. Buom yn gwrandu ar yr hyawdl Ernest Jones yn dadleu drostynt, ond er cymaint ei hyawdledd collfarnwyd tri o'r llofruddion. Nid ydwyf mewn un modd yn ymfrostio yn y ffaith, ond gwelais y tri llofrudd yn cael eu hyrddio i'r byd arall oddiar y crogbren. Aethym i edrych ar yr olygfa ddychrynlyd fel gohebydd i un o newyddiaduron Caernarfon. Yr oedd yn olygfa nad anghofiaf byth. Y weithred oreu a wnaeth Llywodraeth Prydain erioed oedd gwneyd i ffwrdd â dienyddiadau cyhoeddus, a'r weithred nesaf ddylai fod diddymu y gosp o ddienyddio.

Yr oedd blwyddyn 1868 yn llawn berw yn Manceinion fel yn mhob man arall trwy'r deyrnas. Yr oedd yr etholfraint dair onglog wedi cael ei gwneyd yn gyfraith y tir, a dinas y Cotwm fel Lerpwl, Leeds, Birmingham, a rhai dinasoedd eraill, wedi cael tri aelod, ond nis gellid pleidleisio ond dros ddau, felly aeth Tori i fewn ar ben y rhestr y tro cyntaf er 1832. Tafwyd Ernest Jones allan, ac etholwyd Birley, Bazley, a Bright (*the three B's*, fel y gelwid hwy gan bobl y ddinas). Ond rhaid i mi adael Manceinion yn y fan hon, gan fod fy meistr, Mr. Robert Roberts (brawd i'r meddyg enwog Syr William Roberts), yr hwn a adwaenir yn awr wrth yr enw Robert Roberts, Ysw., U.H., Crug, ger Caernarfon, wedi cael allan rywfodd fy mod yn ddigon o ddyn neu "bechadur" i wneyd Trafeiliwr, a gyrodd fi i Ddeheudir Cymru.

DECHREU TEITHIO.

Teithiais drwy bron bob cwmwd yn Nghymru, "O ben Caerdybi i ben Caerdydd." Y dref gyntaf i mi weithio yn y Deheudir oedd Casnewydd. Cyrhaeddais yno yn hwyr rhyw noson.† Y boreu dranoeth, pan yr oeddwn yn dechreu ar fy moreufwyd, daethpwyd a'r *Western Mail* ar y bwrdd; agorais ef, a'r peth cyntaf a

welwn oedd rhestr o'r rhai oeddynt wedi eu hethol y diwrnod cynt, ac yn eu plith Love Jones-Parry, dros Sir Gaernarfon, gyda mwyafrif o 148, a E. Mathew Richards, dros Sir Aberteifi, gyda mwyafrif o 152. Ni fuaswn yn crybwyll y ffaith hon ond am ei bod wedi digwydd fy mod yn darllen y ffigyrau uchod o oruchafiaeth Rhyddfrydiaeth mewn dwy o siroedd mwyaf Toriaidd Cymru, yn yr ystafell hanesyddol lle y llechai ynadon Casnewydd, pan daniodd y *mob* Chartaidd arnynt yn y flwyddyn 1848, ac y mae ol bwledi y terfysgwyr i'w gwled ar barwydydd yr ystafell hyd y dydd heddyw.

Yn ystod deunaw mlynedd o deithio, y rhan fwyaf yn Ngogledd Cymru, gwneuthum laweroedd o gyfeillion, ac y mae y cyfeillgarwch yn parhau hyd y dydd heddyw, fel y gwelir yn neillduol yn rhestr y tanysgrifwyr at y gyfrol fechan hon. Gofod a balla i mi adrodd llawer digwyddiad dyddorol a gymerodd le yn ystod y deunaw mlynedd o fywyd teithydd masnachol. Yn y flwyddyn 1871 y digwyddodd yr amgylchiad mwyaf dyddorol a phwysig yn y cyfnod hwn, ac yn fy mywyd hefyd o ran hyny, oblegid mi a briodais wraig, un o ferched goreu Ynys Mon, yr hon sydd er's yn agos i bedair blynedd ar hugain wedi bod i mi yn gydmar ffyddlaw, ac fel angyles yn gweini arnaf gyda phob sirioldeb ac amynedd yn ystod fy mlin a'm maith gystudd, ac wedi helpu llawer arnaf i gasglu fy ADGOFION at eu gilydd. Bendith y nefoedd fyddo ar ei phen.

Y GWYNTOEDD A DDAETHANT.

Pan ar ben dwy flynedd a deugain oed, "Y llifddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant" ar y babell bridd hon, "a'i chwymf a fu fawr." Yn y flwyddyn 1884 ymaflodd hen elyn y corph dynol, a'r "swmbwl yn y cnawd," y crydcymalau, yn fy aelodau. Ymdrechais ymdrech ddeg i ymladd â'r gelyn, ond efe a orfu. Gweinyddwyd arnaf gan rai o feddygon goreu Cymru a Lloegr, ond y gelyn a fu drech na hwynt, ac yr ydwyf er's deng mlynedd yn rhwym mewn cadwynau.

Nid boddllawn gan y poenydiwr fy mhoenydio â gwiall ac ysgorpionau, rhaid iddo rod-di fy nhraed yn y cyffion a'm carcharu. Ond er mai carcharor ydwyf, yr wyf yn "garcharor gobeithiol." Oblegid credu yr ydwyf y daw ymwarded pan ddel yr amser cyfaddas, a hyny yr ochr yma i'r bedd. Yr ydwyf wedi cael nerth trwy'r holl flynyddoedd i fod yn llawen a siriol yn fy holl brofedig-aethau, ac yr oedd i bob cwmwl a fu yn hofran uwch fy mhen "*silver lining*," ac erfyniaf am nerth i ddweyd hyd ddiwedd fy ngyrfa, "Dy ewyllys Di a wneler."

Dyna, yn fyr ac yn fler, ddarlennydd hynaws, "Dipyn o fy Hanes," ac yr ydwyf yn sicr y bydd i ti, o dan yr amgylchiadau, faddeu i mi am lawer o ffaeleddau sydd wedi ymlusgo i'r gyfrol fechan a gynygiaf i'th sylw.

A GAF FI FENDIO ETO?

Tra yn aros yn yr *Hydro-pathic*, yn Llandudno, am rai wythnosau yn ngwanwyn 1885, gyrtais y penillion a ganlyn at fy hen gyfaill hoff, y diweddar Mr. J. D. Bryan, Caernarfon, yr hwn a fu farw yn Cairo, ac y mae ei gorph yn gorwedd yn dawel yn ngwlad y Pharaoid. Gyrodd yntau y llinellau i'r *Genedl Gymreig* :—

A gaf fi fendio eto ?
 A fyddaf megys cynt,
 Yn sionc fy nhroed, yn iach fy ngwedd,
 Wrth fyned ar fy hynt ?
 A, gaf fi fendio eto
 O'r blinder poenus hwn,
 Sy'n gwneyd fy nghalon egwan
 Bron llethu dan y pwn ?

A gaf fi byth ymwarded
 A'r crydcymalau blin
 Sy'n gwneyd fy nghorphyn druan
 Yn brophwyd i bob hin ?
 A gaf fi fendio eto,
 I fyned yma a thrŵ,
 Heb ofni gwynt y dwyrain,
 Nac eira, rhew, na gwllaw ?

A gaf fi daflu ymaith
Y ddwyffon hyn cyn hir ?
Fe fyddai hyny'n gysur,
O byddai, byddai'n wir ;
A gaf fi fendio eto
I chwareu gyda'm plant,
I ddysgu Johnny gerdded,
A'i helpu dros y pant ?

A ddaw y dydd caf rodio
Yn nghwmni f'anwyl Ann ?
A ddaw y fath hapusrwydd
Byth eto i fy rhan ?
A gaf fi fendio eto,
I fyn'd i dŷ fy Nuw,—
I glywed yr Efengyl,
A gwirioneddau gwiw ?

A ddaw y dydd caf arwain
Fy mhlant i dŷ fy Nhad,
A'u rhoddi ar y llwybr
I fyn'd i'r hyfryd wlad ?

O! Arglwydd, ti a wyddost
Yr holl ddirgelion mawr,
Ti wyddost a gaf eto
Byth iechyd ar y llawr ;
Tydi yw'r Meddyg mwya',
Ac yn dy law mae'r hawl,
Beth bynag fydd fy nhynged,
Mi roddaf iti fawl.

“YN Y TREN.”

Cyflwynedig i Mr. J. W. Jones (Andronicus) yn ei gystudd, mewn
atebiad i'w linellau, “A gaf fi fendio eto,” yn y *Genedl Gymreig*.

Cei, cei, cei “fendio eto,”
A byddi “megis cynt”
“Yn sionc dy droed, yn iach dy wedd,”
“Yn myned ar dy hynt.”

Cei, cei, cei "fendio eto,"
 A byddi yn llawn gwên,
 A th "galon egwan" megys cynt,
 Yn llawen "Yn y Trên."

Cei, cei, ti gei ymwarded
 "O'r crydcymalau blin,"
 A bydd dy "gorph prophwydol" gwan
 Yn canu'n iach i'r hin;
 Paid ofni na chei "fendio"
 Cyn iti fyn'd yn hen,
 Cawn dy gyfarfod cyn bo hir
 Fel prophwyd "Yn y Trên."

Cei, cei, cei "daflu ymaith"
 "Y ddwyffon" cyn bo hir,
 A byddi'n iach a heinyf fel
 Tywysog yn y tir;
 Ti fyddi eto'n chwareu
 A "Johnny" yn llawn gwên,
 A Chymru'n darllen hanes taith
 Y gwr sydd "Yn y Trên."

Daw, daw, daw r dydd cei "rodio"
 "Yn nghwmni th anwyl Ann,"
 Yn llawn hapusrwydd fel o'r blaen,
 Yn holliaich yn y man;
 Cei "wrando yr Efengyl,"
 A'i "thrugareddau hen,"
 A rhodi th lais yn erbyn trais,
 Fel arfer, "Yn y Trên."

Cyn hir ti fyddi'n "arwain"
 "Dy blant i dy dy Dad,"
 "A'u rhoddi ar y llwybr" iawn
 "I fyn'd i'r hyfryd wlad;"
 Mae Duw a'i noddod drosot,
 Er iddo guddio i wên,
 Daw th ddymuniadau oll i ben—
 Cei "foli" "Yn y Trên."

OS NA CHEI FENDIO ETO.

Ar ol darllen llinellau Andronicus yn y *Geneal* yr wythnos ddiweddf, ar y testyn "A gaf fi fendio eto," fel hyn yr ysgrifena Mr. W. O. Roberts (Madryn), The Groves, Caerlleon.

Os na chei yma, gyfaill,
Yr adeg fel y bu,
Os na chei di ymadael
A'r crydcymalau du ;
Os na chei wel'd, a theimlo,
A llwyr fwynhau iachad,
Er hyny cei ymddiried
Dy enaid i dy Dad.

Os na chei rodio'n heinyf
Ar lanau'r Fenai fwyn,
A theithio oddiamgylch ogyrch
Drwy Gymru yn ddigwŷyn ;
Os na chei ysgrifenu
Y llithoedd gwresog byw,
Mae eto ar dy gyfer
Drysorau gras ein Duw.

Os na chei eto ddarbod
Am dy anwyliaid lion,
A bod yn amddiffynydd
I'r fun roes iti fron ;
Os na chei borthi bychain
Diaddysg Arfon dre',
Gofala'r Nef am gigfran
I'w porthi yn dy le.

Os na chei eto fendio
A rhodio is y rhod,
Mor iachus, sionc, a heinyf,
Fel buost ti erioed ;
Cei foli'r Iôr mewn blinder
A llawnder mawr o nerth ;
Fe gân y fron dan gystudd,
Fel eos yn y berth.

ADGOFION ANDRONICUS.

Os cei di eto fendio
A rhodio i Seion lân,
Gan lawen foli'r Iesu
Mewn geiriau pert a chân :
Fydd hyn ond dros fyr amser,
'Dyw einioes dyn ond brau,
Ein dyddiau cysgod ydynt,
Cawn fyned adre'n glau.


Ond p'am na chei di fendio,
A ph'am dioddefi'n awr,
A thithau'n gyfaill ffyddlon
I'r Iesu'r meddyg mawr ?
Y dall, y mud, a'r byddar,
A'r cloff iachaodd Ef,
O Iesu, iachâ Ioan,
A gwranddo ar ei lef!

MADRYN.



EDWARD JONES O'R WENALLT.

NID bardd, nid llenor, ac nid cerddor oedd Edward Jones o'r Wenallt. Na, dim ond ffermwr bychan ar stad Syr Watcyn; "bwtsiar" bychan yn gwerthu cig bob dydd Sadwrn mewn "stondin" wrth dŷ tafarn yr Onen, yn Stryt Fawr y Bala. Ond er



EDWARD JONES.

mai ffermwr bychan oedd, ac y byddai yn gwisgo ffedog las ac yn "sefyll y stondin" ar stryd y Bala, ni phasiodd Dr. Lewis Edwards na Dr. John Parry erioed mo "stondin" Edward Jones heb droi i ysgwyd llaw. Ni phasiodd chwaith yr hen Fichael Jones na'i fab mo'r

“ stonidin ” heb nodio pen yn siriol. Chymerasai dim un o fyfyrwyr y Bala, o David Charles Davies, y cyntaf ar restr y Coleg y dydd yr agorwyd ef yn 1837, hyd un o'r bechgyn oedd yn un o'r ddau goleg pan fu Edward Jones farw yn 1880,—ni chymerasai yr un o'honynt lawer am basio y “ bwtsiar bach ” heb nodio pen, a chael sgwrs efo fo. Pam, a oedd ein gwron yn rhyw dduw-einydd mawr, neu beth? Nag oedd, ond yr oedd yn ddyn duwiol, yn hen wr siriol, ac wedi rhoddi help i lawer o fechgyn y coleg pan yn dechreu pregethau, gyda'i wyneb siriol a'i eiriau caredig. Os bydd i un o'm darllenwyr ddigwydd teithio o'r Bala i Ddolgellau gyda'r trên, a chyfarfod ag un o hen fyfyrwyr y Bala, boed pwy fyddo, golygvdd y *Trasthodydd*, y *Drysorfa*, a *Chymru*, os mynwch, gofyned,—“ Fedrwch chwi ddangos y Wenallt i mi? Oeddych chwi yn adnabod Edward Jones? ” Dyma fydd yr ateb,—“ Dacw y Wenallt ar ben y bryn acw; adnabod Edward Jones, oeddwn debyg. Cefais lawer sgwrs efo fo yn y ty acw yr ydych yn edrych arno, pan yn myn'd ac yn dyfod i gapel Cefn Dwygraig.”

I. YR HEN WENALLT.

Safai yr hen Wenallt mewn pantle, rhwng y fan y saif y Wenallt presenol a'r llwyn o goed a elwir Nyrs Fachddeiliog, yn ymyl hen orsaf ffordd haiarn y Bala. Yr oedd ei safle yn nodweddiadol o arferiad yr hen bobl pan yn adeiladu eu tai. Yr oeddynt yn meddwl mwy am gysur a chynhesrwydd nag am olygfeydd. Ysbotyn felly ydyw y Pant Teg, lle safai yr hen Wenallt. Lle felly fyddai y Tylwyth Teg yn ei hoffi, a llawer oedd yr ystraeon am fel y byddai y bodau hyny yn chwareu eu pranciau yn Mhant Teg y Wenallt. Darfu i'r diweddar Edward Evans, y Bala, lawer tro pan oeddwn yn hogyn bychan, ddangos i mi ryw gylch ar y ddaear; dyna ddwedai ef oedd y lle y byddai y Tylwyth Teg yn dawnsio. Wel, ryw brydnawn Sabboth yn y flwyddyn 1820, yr oedd teulu y Wenallt wedi myn'd i'r ysgol a gynhelid yn y Cornelau, ffermdy yn Nghefn Dwygraig,—

yr oedd hyny cyn son am gapel y Glyn, Cefn Dwygraig, na Llwyneinion,—pan ddaeth y teulu yn ol o'r Ysgol Sul, gan feddwl cael cwpanaid o dê yn yr hen gartref clyd, yr oedd yr hen gartref wedi llosgi i'r llawr, ac ni achubwyd dim o'r dinystr ond dau beth, medd yr hanes, sef cloc gwyneb pres, a hen Feibl Peter Williams, yr hyn oedd yn wyrth yn sicr. Mae llawer o hen fyfyrwyr y Bala yn cofio hen gloc gwyneb pres y Wenallt, fyddai fel holl glochiau y wlad, "awr cyn ei amser."

Pan ddeuai myfyriwr newydd i'r Bala, a chychwyn i Gefn Dwygraig tua haner awr wedi wyth, i fod yno erbyn naw,—gwaith haner awr ydoedd y daith,—byddai wedi dychryn pan welai yr amser ar yr hen gloc, ond dywedai Sarah Jones yn siriol,—“O mae'r hen gloc awr yn ffast.” Am Feibl Peter Williams, cafodd llawer myfyriwr ddarllen penod ynddo, wrth gadw dyledswydd yn y Wenallt. Fel y dywedais o'r blaen, ar ben y bryn y mae y Wenallt newydd, a gwelir o ddrws y ty olygfa ardderchog. Teulu y Wenallt pan aeth ar dân oedd Evan a'i wraig Mari Jones. Yr oedd iddynt wyth o blant. Aeth y ddau fab hynaf Evan a Morris i'r Amerig pan yn ieuainc iawn. Bu rhai o'r plant drosodd yn y wlad hon flynyddoedd yn ol. Dringodd rhai o honynt i sefyllfaoedd uchel mewn cymdeithas, a buont yn anrhydedd i wlad eu tadau. Os wyf yn cofio yn iawn bu un o honynt mewn sefyllfa bwysig yn un o Brifysgolion gwlad yr Amerig. Aeth Peter Jones i gartrefu i'r Merddyn Marec, ac wedi hyny i'r Rhyd Wen, lle y mae yn awr ei fab Morris Peters,—brawd iddo ef oedd Evan Peters, yr arch-holwr plant, a Mr. Edward Peters, tad Dr. Peters, Bala. Yr oedd Peter Jones yn un o ferthyron brwydr fawr etholiadol Wynn o Beniarth a Dafydd Williams. Cartrefodd John yn y Gilrhos; bu farw yn lled ieuanc, ond bu fyw ei wraig Mari am lawer o flynyddoedd, a bydd genyf gryn lawer i ddweyd am yr hen chwaer cyn y diwedd. Edward, y mab ieuengaf, ydyw arwr fy ysgrif. Bu hefyd i'r hen deulu dair merch,—sef Jane, Anne, ac Elizabeth, hon

oedd fam i'm cyfaill hawddgar o'r Shop Newydd, Bala, ac hefyd i Mr. Edward Williams y darlunydd, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am y darlun o Edward Jones ar gefn yr ebol asyn. Derbynias lawer o garedigrwydd gan yr hen chwaer dduwiol pan oeddwn yn blentyn, ac yr wyf yn y fan hon yn dymuno heddwch i'w llwch. Bu Evan Jones y Wenallt fyw i fod yn 91 mlwydd oed.

Yn y flwyddyn cyn iddo farw, sef y flwyddyn 1848, penderfynwyd cynhal cyfarfod pregethu ar brydnawn Sul, yn y fan lle byddai y Methodistiaid yn pregethu ar y mynydd cyn son am yr un capel yn yr holl ardaloedd. Nid oedd neb a allai ddangos y llanerch gysegredig heblaw Evan Jones y Wenallt. Cafwyd gan yr hen wr ddyfod yno, ac aeth ati i chwilio am y bwlpud careg, lle y safai Howel Harris, Daniel Rowland, Jones o Langan, a Lewis Evan, i bregethu yn amser yr erledigaethau. Yr oedd tyrfa anferth o bobl pum' plwyf Penllyn wedi dyfod yn nghyd. Saif yr hen bwlpud careg ar glawdd mynydd tir Bryn Hynod. Gofynwyd i Mr. John Jones, y Shop, Llanuwchllyn, ddechreu y cyfarfod,—John Jones oedd fab i William Jones, y Rhiwaedog. Bu John Jones am lawer o flynyddoedd yn drefnydd cyhoedd-iadau Methodistiaid Meirionydd, yr amser y byddai cynifer o wŷr dieithr y De yn dyfod ar hyd a lled y wlad. Mab i John Jones ydyw Mr. Iorwerth Jones, Bryntirion, un o flaenoriaid Cefn Dwygraig, ac iddo ef yr ydym yn ddyledus am rai o'r manylion yn yr ysgrif hon. Wel, John Jones, Bryntirion, roddodd y penill allan yn y cyfarfod,—

“Dros y bryniau tywyll niwliog
Yn dawel f enaid edrych draw,”

nes y bu bron iddi fyn'd yn orfoledd ar y dechreu. Pregethwyd y prydawn bythgofiadwy hwnw gan Dr. Parry, y Bala, a Dafydd Dafis, Cowarch. Fel y dywedais bu farw y flwyddyn ddilynol Evan Jones, hen wr y Wenallt, yn 91 mlwydd oed, a theyrnasodd ei fab yn ei le.

2. EDWARD JONES.

Ganwyd ein gwron yn y flwyddyn 1796. Cafodd rwy anhwylddeb pan yn blentyn, a bu yn gloff hyd ei fedd. "Dyn cloff oedd Jacob," meddai John Hughes, Gwyddelwern, wrth bregethu yn y Bala un boreu Sul, "dyn cloff fel Edward Jones y Wenallt; dacw fo i chi dirion dyrfa, yn y fan acw. Mae pawb ohonoch chi yn ei 'nabod o, yn myn'd i fyny ac i lawr, ac i lawr ac i fyny. Yr oedd gan Jacob, er ei fod yn gloff, fendith ar ei ben, felly y mae Edward Jones, dirion dyrfa, mae ganddo yntau ei fendith ar ei ben."

Dyn bychan oedd Edward Jones, bochgoch, siriol yr olwg, gyda dau lygad du yn llawn o'r *wag* direidus. "Y chdi" fyddde Edward Jones yn ddweyd wrth bawb ond Dr. Edwards, Dr. Parry, a Mr. Williams, Gwernhefin (tad y Mr. Williams presenol). "Chdi" fyddde fo yn ddweyd wrth yr "Hen Breis," gan mai chdi fyddde Mr. Price yn ddweyd wrtho ynte. Un tro daeth cerbyd Mr. Price o hyd i Edward Jones wrth Bont Mwnogl y Llyn. Yr oedd y gŵr cloff y diwrnod hwnw yn cerdded i'r Bala. "Tyrd i fyny, Hedward, wyt ti yn cloff, ro i lifft i ti i'r Bala. Darfu mi cyfarfod claddedigaeth wrth Ty'n y Gwrych, pwy oedden nhw claddu, Edward?" "O Shon Wiliam o'r ———, Mr. Price." "Tyn ta iawn oedd hi Hedward, tyn ta iawn ydi Lewis Edwards. Wel pyddwn wedi marw i gyd ryw ddiwrnod Edward, os byddwn ni byw ac iach." "Byddwn, Mr. Price bach, bob '*enaid*' ohonom," meddai y dyn bychan yn ddifeddwl. "Dynion da yden ni y Methodust i gyd, Mr. Price." Adroddai Edward Jones y stori hon gyda hwyl anarferol. Cyn marw Shon Evan y Gilrhos, ei frawd, bu y ddau yn bartneriaid yn y "busnes lladd" am flynyddoedd, a pharhaodd y bartneriaeth ar ol i Shon Evan farw, rhwng Mari ac Edward Jones. Er mwyn i'r darlennydd ddeall fy mod yn awdurdod ar y pwnc yr wyf yn ysgrifenu arno, gallaf ddweyd yn y fan hon mai mam fy nhad oedd Mari Jones, ac felly yr oedd

yn nain i minau. Yr oedd busnes y lladd yn rhedeg yn ngwaed pobl y Wenallt, a byddaf yn aml yn synu na fuaswn inau wedi cadw i fyny y gelfyddyd dreftadol. Ond y mae llawer o bethau eisieu eu "lladd" heblaw ychain, defaid, a lloi; a charwn fod yn foddion i ladd rhai o honynt, sef llawer o hen arferion drwg yr oes.

Y lladd-dy cyntaf ydwyf yn ei gofio oedd lle 'nawr y saif Trem Aran, ar gyfer yr hwn yr oedd hen bydew, ac wedi hyny pwmp. Wedi hyny symudodd Edward Jones i "ladd-dy Gras." Deallwch mai enw hen wraig oedd Gras, ac nid enw ar oruchwyliaeth; oblegid nid oes lladd mewn "gras." Wel, safai ty lladd "Gras" y lle'n awr y saif Henblas Terrace, ar gyfer y Shop-Newydd. Yn y fan hono y byddai ein gwron yn lladd bob dydd Gwener, a'i "bartneres" Mari Jones yn "hel gwêr," ac yna yn myned a fo i Simon Jones i wneyd canhwylau. Felly yr oedd Edward Jones, nid yn unig yn cyflenwi angenrheidiau y corff ond hefyd yn gwneyd ei ran i oleuo trigolion Penllyn.

3. YN Y STONDIN.

Dydd Sadwrn fyddai diwrnod marchnad y Bala, a phob boreu marchnad yn gynharol gwelid y partneriaid yn y stondin wrth yr Onen,—Edward Jones gyda'i gôt lian glas, a ffedog, a'r *steel* yn hongian wrth ei wregys.. Eisteddai Mari Jones yn dawel ar y fainc, yn gweu â'i holl egni. Fedrai fy nain ddim byw heb wneyd rhywbeth, a phe dasai y Sasiwn wedi pasio penderfyniad fod rhyddid i hen wragedd weu hosan yn y seiat neu y cyfarfod gweddi, buasai yr hen wraig o'r Gilrhos wedi gwaeddi,—“Bendigedig.” Byddai ysgrifenydd y llinellau hyn yn aml heb fod yn mhell o'r stondin ar ddydd Sadwrn, a llawer leg, spawd, a nec o gig dafad a gariodd efe i'r cenhadon hedd oedd yn efrydu yn Ngholeg y Bala. Cariodd hefyd lawer pen dafad a phen llo, o ran hyny, nid am fod yr un ohonynt ei eisieu ond fel

ymborth yn unig. Ai yr "head partner" oddiamgylch i hel ordors ar hyd y tai; ac yna deuai yn ol, a dywedai,— "Wel, Mari, yr ydw i wedi gwerthu pob aelod, a'r penau hefyd." "John," meddai, "taro i lawr ar y papyr yma,—leg i Mr. Edwards, a leg i Blas'r Acre, spawd i Lantegid, a nec i'r Dirwesty," &c.,—byddai amryw o'r myfyrwyr yn lodgio yn y Dirwesty. "Beth am y pen, fewyrth?" "Wel, yr ydw i wedi anghofio, John. P'r un o'r stiwdens yna wyt ti yn feddwl sydd eisieu pen fwyaf?" Ond yr oedd y cwestiwn yn rhy anhawdd i mi ei benderfynu.

Yn y ffordd hon elai llwdwn ar ol llwdwn a llo ar ol llo. Byddai busnes y stondin drosodd yn gynar iawn. Buasai Edward Jones yn gallu gwerthu llawer mwype mynasai, ond yr oedd yn gwerthu ac yn rho'i llawer fel yr oedd. Cychwynai Mari Jones adref yn gynar, a'r tâl goreu a ddisgwyliai y "*clerk in chief*" bychan oedd cael myn'd gyda'r hen nain i dreulio y Sabboth yn y Gilrhos dawl. Rhoddwn haner fy mywyd am gael unwaith eto dreulio Sabboth yn y Gilrhos; wel ie, 'dase nain yno, a chael dweyd adnod eto yn nghapel bach Cefn Dwygraig. Yr wyf yn cofio un noson oer a drycinllyd yn mis Rhagfyr fyn'd gyda'r hen wraig adref trwy goed y Fachddeiliog a thrwy y Pant Teg. Nid oedd arnaf ofn y Tylwyth Teg, yr oeddwn wrth ochr fy nain, ac nid oedd arnaf ofn "Jack y Lantern," oblegid yr oeddwn yn cario yr hen lantern gorn, oedd fel llusern wedi bod yn "llewyrch i lwybrau" Mari Jones er's llawer o flynydd-oedd. Ar ol galw yn y Wenallt i ddweyd wrth Sarah Jones fod Edward Jones yn dwad, ar ol cael *smoke* efo y Doctor, a chwpaned efo Miss Lloyd, Plas yr Acre, a chwpaned efo hwn a'r llall, ac i ninau gael cwpaned yn yr "*Halfway house*,"—sef y Wenallt,—aeth yr hen wraig a'i hŵyr bychan dros y "Bryniau"—wel, ie hefyd "tywyll niwliog" y noson hono. Pan ar dop y "Bryniau," un o gaeau y Wenallt, aeth y lantern gorn allan. Collasom y ffordd, buom am oriau yn crwydro ar hyd y mynydd, a thua haner nos cawsom ein hunain yn

Nhy'n y Bryn. Da oedd genym gyraedd y Gilrhos foreu Sul.

Bob nos Wener delai Edward Jones i'r Gilrhos i wastadhau y "llyfrau." Llyfrau memoranda ceiniog oedd llyfrau masnachol Edward Jones, a *single entry* oedd y *system*, a dim *entry* o gwbl yn aml iawn. Gwaith mawr fyddai ambell dro cael gwneyd y llwdwn neu y llo yn gyflawn. "Mari, wyt ti ddim yn cofio pwy gafodd un o *legs* llwdwn Brynbedwog?" Ar ol tipyn o ystyriaeth cofid pwy gafodd y *leg*, ac felly byddai y llwdwn hwnw yn gyflawn. Felly y byddai gyda phob anifail a leddid. Ond yr oedd gan Mari Jones gof ardderchog, gwnaethai *budget* gystal ag unrhyw Ganghellydd y Trysorlys. Mae merch i Mari Jones eto yn fyw, a bwriadaf dalu ymweliad â hi pan yr ymwelaf a Chynlas.

4. EDWARD JONES FEL FFARIER.

Bu Edward Jones am lawer iawn o flynyddoedd yn gweithredu fel yr unig ffarier yn rhan isaf ardaloedd Penllyn. Nid oedd erioed wedi cael diploma; ond diploma neu beidio, gwyddai sut i iachau pob clefyd a phob afiechyd yn mhlith yr anifeiliaid. Buasai yn codi cywilydd ar lawer ffarier yr oes hon ag sydd wedi pasio yr arholiadau dyrus. Nid oedd gan Edward Jones bris neillduol ar ei ddyledswyddau fel ffarier, ond cymerai unrhyw beth a gynhygid iddo yn siriol a dirwgnach. Cymerodd llawer fantais, fel y mae yn gywilydd dweyd, ar y caredigrwydd hwn i ymddwyn yn hynod o anfonedd-igaidd os nas gellir dweyd anonest tuag ato. Ni roddai llawer iddo ond "owns o bacco" am deithio milldroedd, hindda neu ddrycin, ddydd neu nos. Gwelid ef yn aml yn myned trwy y Bala ar gefn ei "lwdn asen" yn nghyfeiriad y Llidiardau, Cwm-tirmynach, a Rhyd y Fen, a phe chwilid ei logell ar y ffordd adref mae yn sicr na fyddai un darn melyn bathedig i'w gael, os na fyddai yn digwydd bod yno cyn iddo gychwyn oddi cartref.

5. EDWARD JONES FEL BLAENOR.

Ie, fel blaenor yr oedd rhagorion y "bychan cloff o'i glun" yn dyfod i'r golwg. Os yn gloff o'i glun, fyddai ef byth "yn cloffi rhwng dau feddwl," pan y byddai achos yn galw am ryw waith yn ngwinllan yr Iesu o Nazareth. Yr amser yr ydwyf fi yn ysgrifenu am dano, tua saith mlynedd a deugain yn ol, un blaenor fyddai yn nghapel bychan Cefn Dwygraig. Capel bach oedd hwn ar dir y Gilrhos, ar y mynydd, heb na gwal na chlawdd oddiamgylch iddo. Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1830. Dafydd Jones, Ty'n y Bryn, oedd yr hen flaenor; hen wr talgryf, patriarchaidd, a duwiol. Ond-yr oedd yn rhaid cael ychwaneg o flaenoriaid. Ryw foreu Sadwrn pan yr oedd Edward Jones yn torillwddwn dafad yn y stondin, daeth Dr. Parry ato gan ddweyd yn siriol, "Edward, yr yden ni yn dwad acw i ddewis blaenoriaid nos Fawrth nesa." "Purion, siwr," ebai Edward, "cofiwch ddwad a defnydd gyda chwi, Mr. Parry bach."

Gyda'r plant y byddai "y blaenor cloff" yn cael hwyl fawr. Yr oedd ganddo ryw ffordd neillduol i fyn d i'w calonau. Pan y byddai yn holi y plant yn y seiat, byddai y plant yn chwerrthin ac yn wylo yr un pryd, a'r bobl hefyd gyda nhw. Wrth son am Iesu Grist, o'r bron na wnai i'r plant gredu fod yr Iesu yn eistedd yn eu canol nhw ar y fainc fach. Pan yn adrodd hanesyn o'r Beibl wrth y plant, arferai ymadroddion syml, a rhoddai fywyd yn y stori nes gadael argraff fythol ar eu meddyliau. Pan fu farw yr hen esgob o'r Ty'n y Bryn, llithrodd Edward Jones yn naturiol i'r swydd o ben blaenor. Byddai yn werth myned o sir Fon i Gefe Dwygraig i'w glywed yn cadw seiat. Yr oedd yn fwy tebyg i deulu yn eistedd wrth y tân mawn yn nghegin y ffermdy, nac i gyfarfod eglwysig mewn capel, Pa le mae yr hen seiadau hyny yn awr, ddarllenydd tirion?*

* Ar ol i'r ysgrif hon ymddangos ysgrifennodd un hen Gristion ataf y geiriau canlynol: "O, y mae digon i'w cael ar hyd a lled Cymru." Wel diolch am hyny.

Fyddai Edward Jones yn gwneyd fawr iawn efo Dyddiadur. Ryw fath o *chapel of ease* i'r Bala oedd Cefn Dwygraig, ac i'r Bala yr elai y bobl bron bob nos Sabboth, a phob Sabboth Cymundeb. Cynhelid cyfarfod gweddi ambell nos Sabboth yn y Cefn, er mwyn y plant a'r hen bobl. Y daith Sabbothol fyddai'r Glyn, Cefn Dwygraig, a Llwyn Einion. Pan deimlai Edward Jones ar ei galon i gael pregethwr "i nhw eu hunen," ni chai fawr o drafferth. Elai i un o'r lletyau lle y trigai myfyrwyr, a gofynai i wraig y ty,—“Oes yma un o'r bechgyn gartre fory?” ac yna ai yn syth i'r parlwr a dywedai,—“Ddoi di acw fory, machgen i, i ni gael dy ddysgu di sut i bregethu?” Wrthododd dim un erioed mo'r blaenor bach. Y tro olaf y bu yr hen gyfaill anwyl Dr. John Hughes yn edrych am danaf yn yr Hydref diweddaf, dywedodd wrthyf,—“Darllenais eich ysgrif am y Bala yn y *Cymru*; bryd yr ydach chi yn mynd i ddweyd gair am yr hen Edward Jones o'r Wenallt? Pan aethum i i'r Bala yn 1848 (meddai'r Doctor), daeth yr hen fwtsiar bach ataf i'r Dirwesty lle yr oeddwn yn lodgio, a medda fo,—‘Ddoi di atom ni fory machgen i, i ni gael gwybod oes defnydd pregethwr ynot ti, rhai iawn ydi bechgyn sir Fon i gyd.’ Aethum yno, ac ar ol i mi ddarfod pregethu daeth y blaenor bach ataf, curodd fy nghefn, a dywedodd,—‘Da machgen i, pregetha di fel yna bob Sabboth, mi fyddi di yn un o'r pregethwyr goreu yn y Coleg cyn yr ei di o'r Bala.’” Ie, dyna yr ymgom olaf a gefais i efo Dr. Hughes. Toc wedi i Edward Jones gael ei wneyd yn flaenor aeth Dafydd Jones Ty'n y Bryn i ffwrdd am Sul, a syrthiodd y gwaith o dalu y degwm i'r pregethwr ar Edward Jones. Yr oedd wedi lladd llo ddydd Gwener, oedd wedi ei brynu yn Mhant yr Onnen, ger Llangower. Yr oedd yn myn'd i'r Ty Cerig ddydd Llun i brynu defaid gan Mr. Thomas Ellis, Ty Cerig (Cynlas yn awr), ac wedi gwneyd arian y llo yn sypyn bychan mewn papyr llwyd i dalu i Mr. Robert Roberts, Pant yr Onen, wrth fyned heibio i'r Ty Cerig. Rhoddodd yr arian yn ei

boced. Wrth gychwyn i'r capel y boreu Sul hwnw, rhoddodd gwr y Wenallt gydnabyddiaeth y pregethwr yn ei boced. "Deunaw" oedd cydnabyddiaeth Cefn Dwygraig y pryd hyny i'r myfyrwyr, ond rhoddid haner coron i ddau athraw y Coleg bob amser. "Haner coron" hefyd oedd cydnabyddiaeth Owen Thomas ar ol iddo fyn'd i Lerpwl, am mai hyny oedd yr hyn a delid i Henry Rees. Cafodd John Jones, Talysarn, hwyl anarferol yno un prydawn Sul; yr oedd yn pregethu allan o'r ffenestr, a chafodd ef dri a chwech am y bregeth hono. Hysbysir fi gan Iorwerth Jones fod cydnabyddiaeth Cefn Dwygraig wedi codi tipyn erbyn hyn; felly os oes gan rai ohonoch chwi tua sir Fon neu sir Gaernarfon yma Sul gwag, ymohebwch â phen blaenor Cefn Dwygraig. Wel, y pregethwr a ddigwyddai fod yn Nghefn Dwygraig y Sabboth yr oedd Edward Jones i dalu am y tro cyntaf, oedd Dafydd Williams, Llwyn Einion. Talodd y blaenor iddo y "degwm cil dwrn" yn y ty capel, ac aeth pawb i'w ffordd. Ar ol tē, a phan yr oedd blaenor y Wenallt yn hwylio ati i gael "mygyn," rhoddodd ei law yn ei boced i dynu allan y "blwch baco corn." Neidiodd ar ei draed a gwaeddodd ar y gwas dros y ty,—“Ned, Ned, yr ydw i wedi rhoi arian y llo i Dafydd William, dos ar i ol o Ned, mewn munud, i nhol nhw, a hwde doru y ddeunaw yma iddo fo. Brysia, ne mi ddylith Dafydd mai fo ydi Henry Rees wrth gael dwy bunt a chweigien.” Bu hyn yn wers i'r blaenor bach; gofalodd, byth wedi hyny, beidio cymysgu "arian y llo" âg "arian y pregethwr.”

Nid yn unig y mae "degwm" Cefn Dwygraig wedi "codi," y mae yno gapel newydd wedi ei godi y flwyddyn y bu farw Edward Jones, 1880; a gellir yn hawdd ei alw yn "Gapel Coffadwriaethol." Y dydd yr agorwyd y capel, yr oedd pob swllt wedi ei dalu, a chyflwynwyd llestri cymundeb i'r eglwys gan Mr. a Mrs. Jones, Bryntirion, caredigion penaf yr achos. Bendith y Nefoedd a fo arnynt hwy a'u hanwyl fab.

6. EI SASIWN OLAF.

Wel, rhaid i mi yn awr adael llanerch hoff fy mebyd. Mae llawer blwyddyn er pan y bu'm yno, ac y mae yn fwy na thebyg na chaf byth eto weld y lle, os na chaf o ben un o fryniau Caersalem, lle y "ceir gweled hõll daith yr anialwch i gyd." Ond cefais lythyr caredig oddiwrt h fy hoff gyfaill Gwrtheyrn yr wythnos ddiweddaf, a dywed, "Os dowch chi i'r Bala, mi ofalaf fi y bydd digon o ddwyllaw parod i fyn'd a chwi at y Roe Wen, i chwi gael golwg ar y ddwy Aran eto, ac awn a chwi i ben 'Mynydd yr Olewydd,' sef Ffridd Vachddeiliog." Diolch i ti, Gwrtheyrn, mi ddof os gwnei di ofyn i'r Hwn a ddwedodd wrth y cloff ar lan llyn Bethesda,—"Cyfod, cymer dy wely i fyny, a rhodia," fy mendio inau. Wel, Sasiwn olaf Edward Jones oedd Sasiwn 1871. Dyna y Sasiwn y dadorchuddiwyd colofn Charles o'r Bala, a hefyd yr wythnos y cyflwynwyd y dysteb ardderchog i'r Doctor Lewis Edwards. Yr oedd tyrfa anferthol ar Green y Bala yn gwrando ar y Parch. Dr. Thomas a'i gyfaill yn pregethu foreu y diwrnod mawr. Yr oeddwn i a chyfaill o Fangor yn dyfod o'r Green. Gwelsom hen wr ar gefn mul yn dyfod yn nghanol y dyrfa. Gwenai llaweroedd wrth wel'd yr olygfa ddigrifol. Pan wrth adwy y Green daeth haner dwsin o ddynion o amgylch yr hen wr a'r mul. Dyma eu henwau—Owen Thomas, pregethwr mawr y Sasiwn, yn mraich William Williams, Abertawe. Yn nesaf gwelem David Charles Davies, yn mraich Thomas Charles Edwards (y prif athraw yn awr); ar ol y rhai hyn daeth Llewelyn Edwards ym mraich David Charles (Dr. Charles) ei ewyrth. Gwelwn hefyd John Hughes (Dr. Hughes), John Pritchard, Amlwch; a Hugh Jones, Lerpwl. Toc dyma Daniel Rowlands (y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor) yn mraich Lewis Edwards (Dr. Edwards), yn dyfod o hyd i'r hen wr a'r

mul wrth y tyrpec isaf. Ysgydwodd y rhai a enwais law gyda'r hen wr, a chafodd pob un ohonynt ryw air ffraeth a siriol ganddo. Y mae y ffaith hon wedi ei hen anghofio gan y rhai sydd yn fyw o'r rhai a enwais, ond mae fy nghyfaill o Fangor (yr Henadur J. E. Roberts, Y.H.) yn cofio yn dda, ac os bydd raid daw allan i brofi y pwnc. "Pwy oedd yr hen wr yna, deudwch?" meddai fy nghyfaill ar y pryd, "bron nad ydyw yn gwneyd i rywun gofio am amgylchiad a ddigwyddodd yn Jerusalem,—gyda pharch y dymunaf ddweyd,"—meddai'r cyfaill. "Ond pwy ydi yr hen wr yma sydd yn cael y fath groesaw gan ddynion goreu Cymru?" "Ô!" meddwn inau, "dyna

EDWARD JONES O'R WENALLT."



NED FFOWC Y BLAENOR.

CODI BLAENORIAID.

TYDI o ddim ods yn y byd i bwy enwad yr ydw i yn perthyn, nac i ba gapel y byddwn ni yn myn'd fel teulu, ond digon ydi d'eud mai yn ardal Nantlle y mae. Mae gan bob enwad eu dull eu hunain o godi blaenoriaid. Dydi y Methodus, a'r Sentars, a'r Wesla, a'r Baptis, ddim i gyd yr un fath, ac y mae pob un o honynt yn meddwl mai y nhw sydd yn iawn. 'Does gan yr Eglwys yr un blaenor: y person a'r clochydd ydi pobpeth; y person sydd yn dewis y clochydd, a rhyw fistar tir, sydd yn byw yn ddigon pell, ambell dro sydd yn dewis y person. Y mae eglwys y plwy yn perthyn i'r stâd, ac eneidia'r plwyfolion hefyd, fel y mae y ffermydd, y coed, a'r *game*. Treio rhoi tipyn o ola i chi tua'r Nant yma ydw i.

Noson bwysig mewn capel ydi noson codi blaenoriaid. Pan eir i son am ethol swyddogion mewn capel, welsoch chi erioed fath gynhwrf fydd yn y gweryll: pawb yn edrach ar eu gilydd, a phawb eisio gwybod sut y mae pawb yn edrach. Bydd calon llawer un yn curo yn erbyn ei sena nes y gallwch eu clywed fel drum Salfation Army, Caernarfon. Welsoch chi 'riod fel y bydd y dynion y bydd eu llygaid ar y clustogau esmwyth yn altro eu gwedd: mae eu gwyneba yn wên i gyd,—o glust i glust. Mae rhai dynion na fydda nhw ddim wedi cymeryd mwy o sylw o honoch na phe buasech yn farw er's blwyddyn. O! fel mae eu gwyn-eba wedi cael chwildroad. "Sut yr ydach chi heddyw, Mistar So and So? Ydi Mistras So and So a'r plant reit iach?"

Mawr y cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle ar lawer wedi cael myn'd i'r sêt fawr. Cyn hyny byddant fel

ryw fodau rhesymol eraill, gyda gwên hawddgar ar eu gwyneb; ond arhoswch dipyn, gadewch i'r brawd gael eistedd ar glustogau esmwyth agosaf i'r pwlpudd, a theimlo pwysau swyddogaeth ar ei ysgwyddau, a dyna fo yn y fan yn cael "gwedd-newidiad," ond cofier mai eithriadau ydyw y rhai hyn ac nid y rheol.

Yr ydych chi yn methu dallt athrawiaeth y cyfnewidiad yma. Os ydych chi dyn wedi cael swydd mewn eglwys, pa'm raid iddo dynu gwyneb hir, ac edrych mor ddifrifol a phe b'ai yn sefyll wrth fedd ei nain? Yn lle edrych yn ddifrifol ac yn wyneb-drist, dylai fod yn siriol a gwyneb-lawen; oblegid braint ydych chi cael bod yn swyddog yn eglwys Dduw.

Wel, daeth y noson fawr o'r diwedd. Yr oeddwn yn gwybod fod tipyn o si wedi bod y byddai Ned Ffowc yn un o'r etholedigion, er na wyddwn i yn y byd am un cymhwyster neillduol oedd yn perthyn i mi, heblaw y byddwn yn cael tipyn o hwyl wrth holi'r ysgol. 'Roeddwn hefyd yn Nazaread o'r groth, ac yr oedd hyn yn llawer. Wel, ar ol i mi fyn'd adre o'r chwarel, yr oedd y té yn barod, a Sara a'r plant wedi gwisgo am danynt yn drefnus yn eu dillad capel. Yr oedd Sara wedi d'eud wrth y plant druain fod rhywbeth mawr iawn yn myn'd i gymeryd lle yn y seiat, a bod rhaid iddynt fod yn blant da, ac yn reit ddistaw pan ddown i adra o'r chwarel. Dyna lle yr oedd y pethau bach mor ddistaw a llygod, ac yn edrach mor ddi-galon a phe baswn i yn myn'd o flaen y stusiaid am ladd sgwarnog.

Wel, i'r capel a ni bob un ond y babi a'r hogan hyna i edrych ar i ol o:—y plant yn cerdded o'n blaen a Sara yn closio ataf ac yn d'eud, "Treia dy ore feddianu dy hunan, Ned bach." 'Roedd yn seiat fawr, fel y bydd bob amser pan y bydd rhywbeth ar droed, ac yn enwedig os bydd rhyw olwg am dipyn o *row*. Eisteddai pedwar gŵr diarth yn y sêd fawr, wedi dyfod i gymeryd llais yr eglwys. Dechreuodd un trwy weddi, ac yna traethodd y tri arall dipyn ar y pwysigrwydd o

ddewis dynion mwya' cymwys, a gobeithient y cawsai yr eglwys arweiniad oddi uchod.

ETHOL PEDWAR.

O'r diwedd fe syrthiodd y coelbren ar bedwar, ac yn eu plith yr oedd Ned Ffowc druan. Yr oedd Sara wedi myn'd yn grynedig iawn er's meityn,—ac yr oedd yn treio fy nghadw ina rhag myn'd yn swp. Yr oedd y botel smel yn gwneyd gwasanaeth gwerthfawr, ac oni bai am hyny, mae arnaf ofn mai yn ngwaelod y sêl y buasai gwraig fy mynwes pan glywodd hi Edward Ffowc yn cael ei enwi. Gofynnodd un o'r ymwelwyr am air gan yr etholedigion, a chan mai fy enw i oedd yr olaf cefais amser i hel fy meddyliau at eu gilydd. Dywedodd fy nhri cyd-etholedig agos yr un peth, sef fod y peth wedi dyfod mor annisgwyladwy atynt, a bod y cyfrifoldeb mor fawr a phwysig, fel nad oeddynt yn teimlo yn barod i ymgymeryd â'r swydd heb gael digon o amser i ystyried y mater yn ddifrifol. (Gwarchod pawb! a'r tri wrthi er's talm yn paratoi ar gyfer y peth).

“Wel, Edward Ffowc, oes genoch chi rywbeth garech chi ddweyd?” meddai yr hynaf o'r ymwelwyr, gyda golwg siriol a phatriarchaidd arno, nes peri i mi gael nerth i ddweyd fy meddwl yn bwyllog. Gwasgodd Sara fy nhroed er mwyn rhoddi nerth i mi. Codais ar fy nhraed, a threiais ddweyd goreu gallwn, nad oeddwn i ddim am ddweyd yr un peth a'm tri brawd; ond y buaswn i wedi fy siomi yn fawr pe b'aswn heb gael fy newis; fod genyf awydd mawr gwneyd rhywbeth dros grefydd, ac os oedd bod yn swyddog yn yr eglwys o ryw fantais i hyny, y gwnawn fy ngoreu, yn ol y goleuni oeddwn wedi ei gael.

“Mae yn wir dda genyf eich clywed yn siarad mor blaen, Edward Ffowc,” meddai yr hen weinidog. “Mae gormod o lawer o hen rodres efo peth fel hyn, a llawer o ragrith hefyd.” Yna aeth i weddi.

GARTREF.

Yr oedd Sara a'r plant wedi cyrhaedd adref o'm blaen; ac wedi i mi fyn'd i'r ty, dyna lle yr oeddynt yn eistedd fel delwau wrth y tân, a Sara yn edrych yn syn a difrifol. Gwelais y sefyllfa yn y fan. Yr oedd y plant yn meddwl fod rhyw gyfnewidiad mawr i ddyfod ar y teulu; fod dyddiau y sach-lian a lludw, a'r ymprydio wedi dechreu ar ein haelwyd lawen. Doedd dim golwg am damaid o swper. Yr oedd y tegell ar y tân yn canu, fel y dywedodd Mr. Spurgeon,—fel “angel du ansyrthiedig.” Yr oedd yr ochr cig moch uwch ben y ty yn disgwyl cael gwneyd croesaw i'r blaenor newydd, y gath yn mewian, ac yn rhwbio ei chroen sidanaidd yn fy nghoesau, ond y wraig a'r plant fel pe wedi eu syfrdanu. Pam? Dim ond eu bod yn deall oddiwrth draddodiadau na ddylai blaenor fod â gwên ar ei wefusau.

Eisteddais i lawr a daeth Wil bach ataf. Hogyn pert ydi Wil. Eisteddodd ar fy nglin, ac ebai y bychan:—

“Tada, chawn i ddim swper heno?”

“Pam, machgen i?”

“Wel, roeddwn i yn meddwl ein bod yn myn'd i ddechre ymprydio heno.”

“Taw a dy lol, Wil, da ti,” a gwaith munud oedd tori sglisen o'r cig moch; a welsoch chi 'rïoed fel yr oedd Sara wrthi yn paratoi! Yr oedd y miwsig ar y badell ffirio, a sŵn y llestri tē yn ei gwneyd hi yn anhebyg iawn i dŷ ympryd.

SARA.

Ni wisgodd erioed esgid well dynes na Sara. Y mae ganddi hi ei gwendidau fel pob gwraig arall, ond rhai hynod o ddibechod ydynt. Dynes dda oedd Sara gwraig Abram; ond yr oedd ganddi lawer mwy o wendidau na Sara gwraig Ned Ffowc. Pan aeth y

plant i'w gwelyau, daeth Sara ataf, rhoddodd ei llaw ar fy ysgwydd, ac meddai:—

“Ned bach, mae'n dda gan fy nghalon i dy fod di wedi myn'd drwyddi mor dda yn y capel. Yr oedd gwraig y ty nesa' yn deud mai ti siaradodd oreu o'r pedwar, ond wn i ar chwyneb y ddaear un gair ddeudaist ti, yr oeddwn i wedi myn'd yn un swper's meitin. Ned, mi leiciwn i fod yn bob help i ti, dawn i'n gwybod sut. Mae un peth yn pwyso tipyn ar fy meddwl i, Ned; ond dydw i ddim yn leicio deud wrtha ti chwaith.”

“Yma ti, Sara bach, rhaid i ti beidio myn'd fel yna. Os oes gen ti ryw beth ar dy feddwl, allan a fo. Cofia fod gen i rwan ddau hawl i wrando ar dy brofiad di—fel gw'r yn gynta, ac wed'yn fel blaenor ar dy eglwys di. Allan a fo, Sara bach.”

Rhoddodd Sara ei braich am fy ngwddf, a rhoddodd glats o gusan i mi, a dyna y barclod wrth ei llygaid ac mewn tŷn wylofus meddai:—

“Ned, a raid i mi dynu y tair bluen goch o'r fonat hono brynaist ti i mi wrth ddod adra o Lundain; gan dy fod ti yn flaenor?”

Wyddwn i ddim lle yr oeddwn yn eistedd, ac ni wyddwn i ddim pa un ai chwerthin a'i crïo a wnawn, ond meddwn,

“Na raid, 'nen o'r anwyl; raid i ti dynu dim o dy fonat; cei wisgo cyn gystled ag y gwnest erioed—yr unig beth pwysig ydi eu bod nhw wedi talu am danyn nhw. Mae stori am yr hen weinidog enwog Roland Hill, y byddai ei wraig yn bur fford o wisgo, a gwisgo mwy nag a allai y gw'r fforddio. Yr oedd arni eisiau bonat newydd, ond 'doedd dim pres i dalu am dani. Yr oedd hen gestar drôr yn y ty heb lawer o'i eisiau; gwerthodd Mrs. Hill hono, a phrynodd fonat. Y Sul wed'yn, yr oedd yr hen weinidog wedi dechreu ar y gwasanaeth cyn i Mrs. Hill ddyfod i fewn i'r capel. Y munud y gwelodd hi dyma fo yn gwaeddi, *Clear the way*, dyma Mrs. Hill yn dwad a'r cestar drôr ar ei phen.”

“Tro digon gwael arno fo, Ned. Ond raid i ti ddim ofni y do i a'r cestar drôr, na dim dodrefn arall ar fy mhen i'r capel. Wyt ti am dynu y goler felfat oddiar dy gôt ucha, Ned, a chribo dy wallt ar dy dalcen, fel yr hen flaenoriaid er's talwm?”

“Na, Sarah bach, mae oes yr hen biwritaniaid wedi myned, ac yr ydw i am fod yn gymaint o swel ag erioed. Yr wyf am goler velvet a 'chiw pi' hefyd.”

Llonodd Sara yn fawr wrth hyn, ac ni soniodd air byth am y peth.

DECHREU GWEITHIO.

Ar ôl myn'd o dan y corn olew, a dechreu teimlo fy hunan yn sadio tipyn, dechreuais bryderu, pa beth a gawn wneyd fel blaenor. Collais lawer noson o gysgu gan mor bryderus oeddwn. Yr oedd digon yn y sêd fawr eisoes a fedrent siarad mwy na digon, ond yr oeddwn yn teimlo fod eisiau gwneyd rhywbeth heblaw siarad. Yr oedd rhyw lef ddistaw fain o hyd yn dweyd wrthyf fod llawer o bobl na fyddent byth yn twyllu capel nac eglwys: dyma fyddai fy ngwaith. Yr oedd un gŵr ar fy meddwl er's llawer dydd, ac yr oeddwn yn teimlo y buasai yn dda genyf pe medrwn ei gael i'r Ysgol Sul. Un o'r dynion mwyaf ffraeth yn yr ardal, dyn a chalon fawr yn curo yn ei fynwes, sef Lewis——, y gôf, dyna y dyn y rhoddais fy mryd i fyn'd i gael ymddiddan âg ef gyntaf. Ar ôl tē ryw nos Lun, ffwrdd a fi ato i'r efail, am y gwyddwn ei fod y noson hono yn gweithio yn hwyr, i orphen rhywbeth pwysig oedd eisiau yn gynar yn y boreu.

Cefais y go' wrthi yn ddygyn yn trwsio darn o un o'r peirianau perthynol i'r chwarel. Pan aethum i fewn i'r efail, edrychodd Lewis i fyny, a gwelwn rhyw wên goeglyd yn myn'd dros ei wyneb. Tynodd ei gap, ac ymgrymodd nes yr oedd ei drwyn bron a tharo yr eingingion.

“Helo, Mr. Ffowcs, sut yr ydach chi heno, syr?” meddai'r hen gyfaill.

D

“Paid a'm galw i yn feistar, Lewis bach; cofia mai Ned Ffowc ydwi fel yr oeddwn tua phymtheng mlynedd ar hugain yn ol, pan oeddem ni yn hogia gyda'n gilydd. Wyt ti yn cofio fel y byddem yn chwareu efo'n gilydd ar lan y llyn isa ar brydnawniau Sadwrn. Llawer 'sgodyn ddaru ni ddal yn te, Lewis. Wyt ti'n cofio, co bach, yr hogia eraill, fydda yn cyd-chwara â ni yn Nghloddfa'r coed, sef Bob Typobty, Dafydd Lloyd, Price Griffith, a Morris ———. Wyt ti'n cofio fel y bydda ni ambell noson seiat a chyfarfod gweddi yn myn'd i gyd i'r un sêd, ac yn poeni ysbrydoedd cyfiawn yr hen flaenoriaid anwyl—Edward Wiliam a John Robins.”

Erbyn hyn yr oedd y dagra yn powlio i lawr wyneb yr hen ôf, ac yntau yn sychu ei wyneb â chefn ei law nes gadael stripen ddu ar draws ei drwyn.

“Na, paid a'm galw yn *Mr. Ffowcs*-eto, Lewis.”

“Wel, yn tydi pawb yn lecio cael eu galw yn *fistars* ac yn *fistresus* rwan, Ned. Welaist ti y wraig hono oedd yn dy gyfarfod di pan oet ti yn dwad i fyny y lon yna, Mrs. Jones wst ti.”

“Pwy Mrs. Jones? Yr oedd hi yn rhy dywyll i mi gwel'd hi yn iawn, ac yr oedd ganddi fêl ar ei gwyneb.”

“O, Catrin Wil Robin Shon fydde ni yn ei galw hi cyn iddi gael y cant a haner pres rheini ar ol yr hen gyb o ewythr fu farw yn perthyn iddi hi yn y Mericia, ond *Misus Jones* bob gair yrwan, *if you please*. A dyna wraig y Twmpathdrain, gwraig Benja Twm Wil Catsen, Mrs. Wiliam ydi pob peth rwan. Mae yr hogyn hyna wedi cael myn'd yn glarc yn yr offis, ac wyddos ti be ma nhw wedi neud? Y mae nhw wedi newid enw y ty i Thorn Bush House. *Grand yn te?*”

“Wel, Lewis bach, nid dwad yma i drin achos pobl a'u henwa ddaru mi, ond i dreio fy ngore gen't ti ddwad i'r Ysgol Sul.”

“O brensiach mawr, Ned; wyt ti wedi dechra blaenora? Mi weli yn fuan dy fod wedi dyfod i'r *rong stop*. 'Rwyd ti yn gwybod am dana i, Ned, dim lol wst ti. 'Does gen i fawr iawn o ffydd mewn crefydd rhai

pobol fel y mae hi yn cael ei chario yn mlaen ganddyn nhw y dyddia yma. Tipyn o sham ydi eu crefydd nhw yn awr—tipyn o gilt ar haiarn bwrw. Weli di yr hen bedol yna, Ned, 'dawn i yn gyru hona i Birmingham, i gael ei golchi hefo gilt, buasai pawb yn meddwl mai pedol aur fase hi. Wyddost ti y chestar drôr sy gan Dic Shonat, mahogany, medda fo, ond 'dydi o ddim mwy o fahogany nac ydi coes y morthwyl yma. 'Does dim ond haenen dena o ffinâr ar goed ffawydd. *Sham* i gyd, Ned; ac felly y mae hi efo crefydd llawer o honoch chi. Paid ag edrych mor ffyrnig, Ned, ne mi ddylia i dy fod yn un o honyn nhw, ond 'dwyt ti ddim chwaith."

"Lewis anwyl, mae arna i ofn dy fod di wedi myn'd yn rhy bell i'r Efengyl na gras allu dy achub di."

"Beth, wyt ti'n meddwl mod i yn waeth na'r lleidr ar y groes? Mi gafodd hwnw fyn'd i'r nefoedd yn yr un cerbyd a Iesu o Nazareth, Brenin yr Iuddewon."

"O, Lewis bach, wyddost ti ddim mor dda gen i fase dy wel'd di yn sadio tipyn. Yr wyt ti yn fwy hyddysg na'n haner ni yn y 'Sgrythyr, ac y mae tipyn o'r gilt a'r ffinâr o'th gwmpas ditha hefyd. Yr wyt ti'n teimlo mwy nag wyt ti'n ddangos. 'Dydw i ddim am dy roi di i fyny, mi weddia drosta ti bob nos a bora."

"Ie, gwna, Ned bach, oblegid llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn. 'Does gen i ddim yn erbyn gwir grefydd, 'machgen i, ond yn erbyn y rhai sydd yn proffesu yn anheilwng, er fod raid i mi ddeud fod llawer iawn o bobl wir dda yn mhob enwad, o oes. Mae arna i eisio gweled mwy o grefydd y Samariad trugarog a llai o grefydd y Lefiad annrhugarog. Qs oes gen't ti amser mi ddeuda i stori fach i ti ar y pwnc."

"Oes, digon o amser, Lewis; dechra arni."

MARI DAFYDD.

"Mewn ardal yn sir Gaernarfon yr oedd gwraig weddw—Mari Dafydd oedd ei henw hi. Yr oedd hi wedi colli ei gwr er's haner blwyddyn, a chwech o blant

eisieu eu magu, yr hynaf o honynt ddim ond deuddeg oed. Y nos Sadwrn cyn y 'Dolig yma, yr oedd tri o'r plant yn gorwedd yn sâl o'r frech goch, ac felly yr oedd Mari yn methu myn'd yn mlaen gyda'i gwaith gwnio, trwy yr hyn y byddai yn cael tamed iddi hi a'i phlant. 'Doedd dim tamed o fwyd yn y ty, a hithau yn nos Sadwrn 'Dolig. Rhoddodd ei bonat am ei phen, a rheddodd i dŷ un o flaenoriaid y capel—gŵr arianog—dyn blaenllaw yn y capel—wel, y fo oedd y pen-blaenor. Cnociodd Mari Dafydd yn wylaidd wrth y drws, a chafodd wel'd Mr. Hwn a Hwn, a dwedodd ei chwyn wrtho, ac meddai yntau,—

“'Does gen i ddim byd i chi, Mari Dafydd. Yr ydw i yn talu trethi mawr at gynal y tlodion; y peth gora fedrwch chi neud ydi myn'd i'r wyrwys.”

“Fedra i ddim myn'd yno heno, Mr. Hwn a Hwn, a 'does gen i ddim tamad at y fory, a thri o'r plant yn sâl, ne faswn i ddim yn dwad ar ych gofyn chi na neb arall.”

“'Does gen i mo'r help am hyny; fedra i wneyd dim i chwi.”

Trodd Mari druan tua chartref gyda chalon drom; ond meddylodd y troai i fewn i dŷ rhyw hen saer oedd yn byw ar y ffordd; aeth a dwedodd ei chwyn wrth hwnw. 'Doedd hwnw ddim yn perthyn i grefydd mwy na minau. Cafodd ddysglaid o de poeth gan Mrs. Tomos, a thra yr oedd hi wrthi yn yfed y te yr oedd yr hen saer a'r wraig wrthi yn llanw basged efo bwyd iddi fyn'd adre. Dyna i ti, Ned, Samaritan digrefydd. P'run sydd fwya tebyg i fyn'd i'r nefoedd, ai yr hen saer yna neu Mr. Hwn a Hwn? Yr oedd plant Mari Dafydd yn well nos Sul, a thrwy fod cymydoges garedig wedi dyfod i aros efo'r plant aeth i'r capel. Yr oedd yno bregethwr da, a soniai lawer am drugaredd a dyledswydd crefyddwyr at rai oeddynt mewn profedigaethau, helbulon, a thlodi. Yn y seiat, cafodd Mari Dafydd y fraint o glywed Mr. Hwn a Hwn gyda thon wylodus, a dagra heilltion ar ei ruddiau yn adrodd darn o'r

bregeth ac yn annog i haelioni a thynnerwch. Dyna i ti, Ned, rhyw betha fel yna fydd yn cledu fy nghalon i. Clywed am rai tua'r capeli yma yn son am diriondeb a thrugaredd, maddeugarwch a phethe fel yna, a dim yn ei actio fo eu hunain. Mewn llawer capel mae nhw yn deud wrtha i fod yno bobl yn cydocheneidio, yn cydorfoleddu, ac yn cydeistedd i fwyta y Sacramenta, ac na wna nhw ddim siarad efo eu gilydd ar y ffordd. Nid dyna wir grefydd. Ond fel y dudes i o'r blaen, Ned, y mae llawer iawn o bobl dda yn perthyn i'r Capeli, a'r Eglwys hefyd o ran hyny. Mae yma lawer yn yr ardal yma yn bregethwyr, yn bersoniaid, ac yn flaenoriaid,—dynion ag y buasai yn dda gen i pe daswn i yn debyg iddynt. Rhaid i ti beidio meddwl fod gen i feddwl caled o grefydd, o nag oes; yr ydw i yn parchu crefydd a chrefyddwyr, ond y mae defaid duon yn perthyn i bob corlan; ond un braf ydw i ynte i'w pigo nhw allan.

Wel, ar ol clywed yr hen ôf yn siarad fel hyn, yr oeddwn yn teimlo yn sicr mod i wedi cael pregeth gwerth myn'd i'w gwranddo, ac y buasai yn llawer ffitiach yn lle bod Ned Ffowc wedi myn'd at yr hen ôf ffraeth a doniol, pe buasai y gôf wedi myn'd i gynghori tipyn arno ef.



ADGOFION AM Y BALA.

I. RHAGYMDRODD.

I E, "Y" Bala; nid Bala, ond "Y" Bala. Mae yn rhaid cael y llythyren "Y" i ddangos pwysigrwydd yr hen dref sydd yn gorwedd yn dawel yn



nghesail y bryniau ac ar lan Llyn Tegid. Ni ddywedir "Y" Corwen, "Y" Dolgellau, nag "Y" Llanuwchllyn. Nid ydyw Llundain, Rhydychain, nag hyd yn oed Bangor fawr ei breintiau, yn ddigon enwog i gael Omega y wyddor Gymreig i ddangos ei phwysigrwydd. Dyna oedd ein syniad ni blant y Bala ddeugain mlynedd yn ol, pan yn chwareu ar y Green gysegredig, y

Domen Rufeinig, ac ar lan Môr Canoldir Meirion— (Llyn Tegid). Ac yn wir dyna yw ein syniad ni heddyw, pan y mae y pren almon wedi dechreu blodeuo a cheiliog y rhedyn yn faich. Y mae son fod pobl Llundain yn bwriadu boddi y Bala gyda dwfr yr Aran a'r Arennig a'r Berwyn, er mwyn tori eu syched, ac felly wirio prophwydoliaeth Robin Ddu y cyntaf, ganrif-oedd yn ol,—

" Bala aeth, a Bala aiff,
A Llanfor aiff yn llyn."

Y mae yn anhawdd genyf gredu y cymer y drychineb hon le; ond os boddur tref y Bala, ni ddileir ei henw hyd oni ddywedir,—

" Yr Aran a'r Wyddfa gyrhaeddawr
A neidiant yn awr hyd y Ne."

Rhag ofn y digwydd i ddiluw Penllyn gymeryd lle o fewn y ganrif hon, yr wyf am gymeryd tipyn o le i roddi ar gof a chadw ychydig hanes hen lanerch sydd mor anwyl gan filoedd o Gymry yn mhob cwr o'r byd. Y mae cymaint o adgofion yn ymgymell i fy meddwl, nas gwn yn iawn pa le i ddechreu. Efallai nas gallaf ddechreu mewn lle gwell nag yn

II. HEN GAPEL Y BALA,

Capel Bethel, neu y capel mawr fel ei gelwid gan bobl y wlad. Hen gapel hanesyddol ydoedd,—capel Thomas Charles, Simon Llwyd, John ac Enoc Evans, a Dafydd Cadwalad. Cof genyf fy mod yn dechreu myned i'r capel yn ieuanc iawn.

Yr oedd ein set ar ymyl y *gallery*, y*cloc ar y llaw dde. Eisteddai yn y set agosaf, ar y llaw chwith, fachgen bychan tua'r un oed a minau, orwyr i Dafydd Cadwalad,—sef y Parchedig Dad Jones, yn awr offeiriad Pabaidd yn Nghaernarfon, boneddwr a berchir yn fawr yn y dref gan wreng a bonedd. Capel mawr ysgwar, hen ffasiwn, oedd capel y Bala, capel llawer haws gwrando a phregethu ynddo, medd y rhai sydd yn

gwybod, na'r capel newydd. Safai y pwlpudd rhwng y ddau ddrws—pwlpudd mawr, digon o le ynddo i gynnwys tri o bregethwyr mwyaf corphorol y Corph. Yr oedd y set fawr (yr allor) yn fawr mewn gwirionedd cyn iddi gael ei hail wneyd i gyfarfod ag oes mwy ffasiynol. Yr oedd digon o le ynddi i gynnal dwsin o flaenoriaid, ond pedwar o wŷr da eu gair oedd wedi bod o dan y corn olew yr adeg yr ydwyf yn ysgrifenu yn ei gylch; sef William Edward, yr emynwr; Hugh Hughes, Tan'rhol, tad y gŵr anwyl Doctor Roger Hughes; Jacob Jones, tad y boneddwr o'r un enw o'r Rhyd; a Griffith Jones, cyfrwywr, wedi hyn arianydd. Ychydig gof sydd genyf am Hugh Hughes; a'r unig gof sydd genyf am William Edward yw fy mod wedi dysgu ei hen benill anwyl ar ei lin,—

“ Mae munud o edrych ar aberth y groes
Yn tawel ddistewi môr tonog fy oes,”

Ar law chwith y pregethwr eisteddai Lewis Edwards (Dr. Edwards), ac yn y gornel ar y llaw dde eisteddai Benjamin Griffiths, *factotum* y capel,—gwneuthurwr menyg lledr o ran galwedigaeth. Ond treuliai fwy o'i amser yn y capel ac yn stabal y capel i ofalu am geffylau y cenhadon hedd a ddelent ar eu tro i'r Bala, nag a wnai gyda'r edau a nodwydd a chroen myn gafr. Hen wr tal, boneddigaidd yr olwg arno oedd Benjamin, nid anhebyg i'r Parch. Henry Rees. Un o oruchwylion ereill Benjamin fyddai gofalu am oleuo y capel. Goleuid y capel â chanhwyllau. Yr oedd yno dair seren (*chandelier*),—un fawr ar ganol y capel, ac un lai bob ochr i'r *gallery*. Cynorthwyid ef gan Evan Owen,—tad gweinidog poblogaidd Tanygrisiau, Ffestiniog,—hen wr doniol, duwiol, a diddan, un a gerid ac a berchid gan bawb. Un o'n hoff bleserau ni y plant yn misoedd Ebrill a Medi, pan y byddid yn goleuo y canhwyllau ar ol dechreu yr oedfa, fyddai edrych ar Benjamin Griffiths ac Evan Owen yn goleu y canhwyllau, a chael gwel'd pwy a'i drwy ei waith gyntaf. Benjamin a

ystyriai ei hunan yn fwyaf teilwng i oleu canhwyllau y pwlpudd a'r "seren fawr," tra y byddai Evan Owen yn goleu y cyntedd nesaf allan a'r grisiau, a dyddorol oedd i ni y plant sylwi pa un o'r ddau gyrhaeddai "ser" y *gallery* gyntaf. Daw un tro rhyfedd i'm cof. Yr oedd Richard Humphreys y Dyffryn yn pregethu, a phan oedd y capel yn cael ei oleuo cyn dechreu y bregeth, rhoddodd yr hen benill hwnw allan i ganu,—

"Diolch i ti, yr Hollalluog Dduw,
Am yr efengyl sanctaidd.
Pan oeddym ni mewn carchar tywyll du
Rho'ist i'n oleuni nefol."

Dyblwyd a threblwyd yr hen benill nes bu bron iddi fyn'd yn orfoledd. Yr oedd Benjamin erbyn hyn wedi dechreu goleu "seren y llofft," ond wedi myn'd i'r hwyl wrth ganu

"Rho'ist i'n oleuni,"

ac yn cadw amser gyda'r *taper* wêr oedd ganddo yn ei law. Eisteddai hen wr ffraeth o dan y "seren," a chododd i fyny yn sydyn a throdd at Benjamin, gan ddweyd: "Yma chi, Benjamin Griffiths, yr ydech chi yn colli gwêr am fy mhen i." Bu agos i mi anghofio dweyd mai yn y set fawr hefyd, y gornel agosaf i'r llawr, ar ochr dde y pwlpudd, yr eisteddai y pencantwr Rolant Hugh Pritchard. Yr oedd yn gerddor rhagorol, a gwelir rhai tonau o'i eiddo yn "Llyfr Tonau Ieuan Gwyllt;" ond yr oedd yn un *touchy* ddychrynlyd, fel y mae y rhan fwyaf o arweinyddion y gân—maddeuant i mi am ddweyd y gwir.

Jacob Jones oedd y pen blaenor, ac iddo ef y disgynai y swydd bwysig o gyhoeddi yr odfaon, swydd neillduol o bwysig y dyddiau hyny. "Cyfarfod gweddi nos yforu am saith, seiat nos Fercher am saith, a'r seiat bach am chwech nos Wener." Ar ol myn'd trwy y rhan arweiniol pesychai yr hen flaenor duwiol, a dyma bawb yn estyn eu gyddfau ac yn rhoddi eu

dwylaw wrth eu clustiau. Yrwan am y *secret* sydd wedi bod yn y dyddiadur er's blwyddyn, mwy neu lai (dim dyddiadur deuddeng mlynedd y pryd hyny, buasai hyny yn gabledd). "I bregethu bore Sul nesa' am ddeg Robet Tomos, Llidiarde; ysgol am ddau, a Robet Tomos am chwech." Dim "parch" na "mistar;" fyddai neb yn cael "mistar" gan Jacob Jones ond Mr. Edwards a Mr. Parry. Arferiad Jacob Jones fyddai cyhoeddi ar ol i'r pregethwr ddarfod pregethu a gweddio; a phan roddai y pregethwr benill allan ar y diwedd, dechreuai y bobl—yn enwedig pobl Cefndwyrgraig a Phantglas—gychwyn allan yn ddiseremoni, er mawr ofid i'r pencantwr ac aflonyddwch i'r rhai fyddai yn dewis aros i ganu. Traethodd Griffith Jones lawer ar hyn, a thraethwr doniol oedd. Ceisiodd ddysgu *manners* i bobl y wlad—un *mannerly* oedd ef a thwt gyda pob peth. Siaradodd Dr. Edwards a Dr. Parry hefyd lawer yn yr un cyfeiriad; ond nid oedd dim yn tycio—myn'd allan wnelai y bobl ar ol y cyhoeddi. Ond ryw nos Sabboth yr oedd Dr. Edwards yn pregethu, a daeth drychfeddwl i feddwl awdwr "Athrawiaeth yr Iawn." Ar ol gweddio ar ddiwedd yr oedfa, dywedodd: "Yr wyf am roddi penill allan i ganu yn awr—hen benill anwyl y byddai eich tadau chwi yn myn'd i orfoleddu wrth ei ganu. Gadewch i ni ei gydganu, a chydweddio wrth ei ganu; wedi hyny eistedd-wch i lawr yn ddistaw tra y bydd y brawd Jacob Jones yn cyhoeddi." Wyddoch chwi beth, aeth dim un gopa walltóg allan. Eisteddodd pawb i lawr ar ol canu tra y bu Jacob Jones yn dweyd "pwy sy Sul nesa." Aeth y peth allan trwy holl Benllyn ac Edeyrnion, a chymerodd yr holl gynulleidfaoedd esiampl oddiwrth bobl y Bala yn hyn o beth, a dysgodd y bobl wylled ar eu traed wrth fyn'd i dŷ Dduw. Rai blynyddoedd ar ol hyn digwyddais deithio gyda Dr. Edwards rhwng Rhiwabon a Chaerlleon, a gofynais iddo a oedd yn cofio yr amgylchiad. "Ydwyf yn dda," a sylwai yn chwareus, a than chwerthin fel y medrai ef chwerthin,

“pa un ai fy araeth i tybed ai ynte eisieu clywed y cyhoeddi a darodd yr hoel ar ei phen, ac a ddysgodd *fanners* i'r bobl?”

Meinciau oedd ar lawr y capel oddigerth rhyw dair rhes o seti oddiamgylch y muriau, ac ychydig o seddau y dosbarth blaenaf y naill ochr i'r set fawr. Mynych gyrchai prif enwogion y Corph i bregethu yn y Bala, ac nid oedd brin wythnos yn myned heibio heb i ryw “wr diarth o'r Deheudir” fod yn pregethu ganol yr wythnos. Tyrai y bobl o'r ardaloedd cylchynol nes byddai yr hen gapel “dan ei sang.” Ambell dro gwelais droi y Sabboth yn rhyw fath o Sasiwn bach, yn unwedig pan y byddai Henry Rees neu John Jones Talysarn yn pregethu. Byddai y capel yn llawer rhy fychan i gynnal y bobl, ac felly yr oedd yn rhaid agor y ffenestr oedd yn ymyl y pwlpuad, ac i'r pregethwr sefyll ar waelod y ffenestr. Byddai canoedd o bobl ar y lawnt fawr o flaen y capel, ac yr oedd llais mawr John Jones yn cyraedd i gyrau pellaf y dorf. Pan y byddai tipyn o awel, byddai dalenau yr hen Feibl yn chwifio fel gwyntyll. Fe ddywedir, wn i ddim am wirionedd y chwedl, mai ar un o'r troion hyn y cymerodd tro lled ysmala le. Dywedir fod gŵr enwog o'r Deheudir yn pregethu yn y ffenestr, gyda thipyn o hwyl a thipyn o “awel” gyda'r hwyl, a bod ei nodion ysgrifenedig oedd rhwng dalenau y Beibl wedi myn'd ar goll. Yr oedd y pregethwr wedi gorphen traethu ar y pen cyntaf a'r ail, aeth i chwilio am ei “nodion;” ac meddai “yn drydedd,” ac wedi hyny, pysychu—“ac yn drydedd” wedi hyn—pysychu eto, ac edrychai yn lled gynhyrfus. Ar hyn gwaeddai hen wr ffraeth o Lwyn-einion—“Mae'ch 'yn drydedd' chi wedi myn'd efo'r gwynt.” Bu agos i'r pregethwr hefyd fyn'd “gyda'r gwynt.” Ond daeth “awel” wedi hyn a “chodwyd yr hwyl,” a gobeithiwn fod aml un oedd yn yr odfa wedi cael “awel o Galfaria fryn.”

Swydd bwysig hefyd yn nghapel y Bala oedd “casglu,” a bu yr un rhai wrthi am flynyddau. Y rhai

DOLENNAU AR GYFER GWEDDILL Y GWEFAN HWN

[1796k](#)

Yr iaith Gymraeg

.....

[2210k](#)

Mynegai yn nhrefn y wyddor i'r hyn a geir yn y gwefan; o'r tudalen hwn gellir hefyd chwilio'r gwefan hwn â'r archwiliwr mewnol

.....

[0052c](#)

Testunau Cymraeg â throsiad Catalaneg yn y gwefan hwn
([Textos en gal·lès amb traducció catalana en aquesta web](#))

.....

[1051e](#)

Testunau Cymraeg â throsiad Saesneg yn y gwefan hwn
([Texts in Welsh with an English translation in this website](#))

Symbolau arbennig: y|w|p

Adgofion Andronicus (= John William Jones, Y Bala, 1842-1895) Cyhoeddwyd: Caernarfon 1894

Ble'r wyf i? Yr ych chi'n ymwéld ag un o dudalennau'r Gwefan "CYMRU-CATALONIA"

On sóc? Esteu visitant una pàgina de la Web "CYMRU-CATALONIA" (= *Gal·les-Catalunya*)

Wè(r) àm ai? Yùu àa(r) vîzîting ø peij fròm dhø "CYMRU-CATALONIA" (= *Wel l z-Katø l óni ø*)

Wé(b)-sai(t)

Where am I? You are visiting a page from the "CYMRU-CATALONIA" (= *Wal es-Catal oni a*)

Website

[CYMRU-CATALONI A](#)